
1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# PROM



**Mynd i'r afael â'r**
*Newid yn yr*
*Hinsawdd*

**Ymchwil**
*Cymru*
*Fyw*

*Heddwch* **a** *Diogelu*

## PROM 30

Mae PROM yn cyflwyno'r newyddion a'r datblygiadau diweddaraf i chi o Aber, gan dynnu sylw at ymchwil a straeon allweddol o bob rhan o'r campws.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio i'r eithaf ar y rhwydwaith hwn o gyn-fyfyrwyr, gan gynnwys ein cylchlythyr misol poblogaidd - gweler yr adran 'Cadw mewn cysylltiad' isod.

Mae'r rhifyn diweddaraf hwn yn trafod hanner canmlwyddiant Canolfan y Celfyddydau, Heddwch a Diogelu, yr Ysgol Addysg, Ymchwil Cymru Fyw a llawer mwy.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer erthyglau yn y dyfodol, cofiwch gysylltu â ni.

**Dylan Jones**
Rheolwr Ymgysylltu Alumni
dej20@aber.ac.uk

## Cadw mewn cysylltiad

@alumni_aber
Aberystwyth Alumni | Cyn-fyfyrwyr Aber
+44 (0) 1970 62 1568
alumni@aber.ac.uk
aber.ac.uk/cy/alumni

Cofiwch y gallwch ddiweddaru eich manylion cyswllt a'ch dewisiadau drwy fynd i alumni.aber.ac.uk/cy/login

## Polisi Preifatrwydd

Mae ein datganiad preifatrwydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y data a gedwir gennym amdanoch chi, sut y caiff ei gasglu a'i brosesu, yr hyn a wnawn gyda'r data hwnnw, a'ch hawliau o dan reoliadau GDPR y DU. Gallwch ddarllen y datganiad preifatrwydd yn llawn yma:

https://www.aber.ac.uk/cy/development/about/data-protection-statement/



# Croeso

Dros y flwyddyn a aeth heibio, er gwaethaf holl anawsterau ac ansicrwydd y pandemig byd-eang, mae'r Brifysgol wedi parhau i ddarparu profiad i'n myfyrwyr yn Aberystwyth y gallwn ymfalchïo ynddo.

Wrth groesawu myfyrwyr o bob rhan o'r byd yn ôl i Aber, mae 2021-22 eisoes yn teimlo fel blwyddyn arwyddocaol yn ein datblygiad fel Prifysgol. Cadarnhawyd yn ddiweddar ein bod wedi torri yn ôl i mewn i'r 40 uchaf o brifysgolion y Deyrnas Gyfunol yng *Nghanllaw Prifysgolion Da y Times a'r Sunday Times 2022* am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn dipyn o gyflawniad i bob un o'n staff a'n myfyrwyr ac rwyf yn eu llongyfarch ac yn diolch iddynt am eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

Bu nifer o ddatblygiadau cyffrous yn y Brifysgol. Rydym wedi croesawu'r garfan gyntaf o fyfyrwyr ar ein rhaglen radd BVSc Milfeddygaeth, a ni yw'r Brifysgol gyntaf, a'r unig un mewn gwirionedd, yng Nghymru i agor Ysgol Filfeddygaeth. Rydw i'n hynod ddiolchgar i'r nifer o gyn-fyfyrwyr sydd wedi cyfrannu cyfanswm o £500,000 i gynorthwyo i gyllido adnoddau addysgu newydd yr Ysgol trwy gefnogi Cronfa Ymgyrch Gwaddol 1997. O hydref 2022 byddwn yn dechrau cynnig cymwysterau nyrsio - cynllun arloesol arall - a hwb sylweddol i'r gwasanaeth iechyd, yn enwedig yng Nghanolbarth Cymru. Ym mis Hydref, cynhaliwyd ein Gŵyl Ymchwil agoriadol, yn canolbwyntio eleni ar heriau'r newid yn yr hinsawdd ac yn trafod datrysiadau posibl i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol byd-eang sydd ohoni (gweler t.20-21).

Mae'n dda iawn gen i fod ein cyswllt â chi, ein cyn-fyfyrwyr, wedi cadw mor gadarn ag erioed er gwaethaf heriau COVID-19. Llwyddodd ein gweminarau a'n cyfarfodydd ar-lein i gyrraedd cyn-fyfyrwyr ymhob rhan o'r byd, ac wrth i'r cyfyngiadau ddechrau llacio rydym yn edrych ymlaen yn fawr at allu cyfarfod â chi wyneb yn wyneb unwaith eto. Diolch yn arbennig i Lywydd Cymdeithas y Cyn-Fyfyrwyr, Gwenda Sippings, sy'n dod i ben ei chyfnod yn y swydd a chroeso cynnes i Lauren Marks, a fu'n Llywydd ar Undeb y Myfyrwyr yn ddiweddar, sy'n ymgymryd â'r Llywyddiaeth ac yn edrych ymlaen at ddathlu pen blwydd y Gymdeithas yn 130 y flwyddyn nesaf (gweler t.10).

Ac wrth sôn am benblwyddi, fe fyddwn yn fuan yn gallu rhannu rhaglen gyffrous i nodi dathlu ein pen blwydd yn 150 yn 2022-23. Yn rhan o'r dathliadau, bwriadwn gyhoeddi llyfr arbennig a fydd yn dilyn hynt ein hanes trwy gyfrwng 150 o wrthrychau. Rydyn ni'n ddiolchgar i bob un ohonoch sydd wedi ymateb i'n galwad am awgrymiadau ynglŷn â gwrthrychau arbennig y teimlwch eu bod yn adlewyrchu agwedd bwysig ar ein hanes. Ac wrth gwrs, rydym wrth ein bodd eich bod yn ymuno â ni ar ein taith ysbrydoledig i drawsnewid yr Hen Goleg eiconig yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol o bwys i Gymru (gweler t.4-5). Mae ymgyrchu i godi arian yn dal yn hanfodol er mwyn gallu gwireddu ein gweledigaeth. Fe fyddwn yn hynod ddiolchgar pe byddech yn ystyried cyfrannu i apêl yr Hen Goleg trwy'r llythyr arbennig sydd wedi'i gynnwys gyda'r rhifyn hwn neu ar-lein yn www.aber.ac.uk/oldcollege - cofiwch gadw'ch llygaid ar agor am ein hymgyrch ddigidol i godi arian, a fydd yn cael ei lansio cyn bo hir.

Diolch twymgalon am y gefnogaeth werthfawr rydych yn parhau i'w rhoi i'ch Prifysgol. Mwynhewch y rhifyn hwn o PROM, ac edrychwn ymlaen at baratoi rhifyn dathlu arbennig ar eich cyfer y flwyddyn nesaf.


**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**



## Mared Edwards

**Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA**

Mae hi wedi bod yn wych cael croesawu myfyrwyr, hen a newydd, yn ôl yma i Aberystwyth. Edrychaf ymlaen yn arw at gael ailgydio yn holl draddodiadau a gweithgareddau UMCA wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Fy ngobeithion ar gyfer y flwyddyn hon yw sicrhau fy mod i'n cynrychioli llais myfyrwyr Cymraeg Aber gan wneud UMCA a Neuadd Pantycelyn mor gynhwysol â phosib. Dwi'n benderfynol o gydweithio â'r Brifysgol a'r Undeb ehangach i sicrhau fod myfyrwyr Cymraeg yn cael yr un cyfleoedd a gwasanaethau â gweddill myfyrwyr y Brifysgol ond drwy ddefnyddio eu mamiaith. Fel Swyddog Diwylliant Cymreig rwyf yn edrych ymlaen at greu perthynas glòs gyda gweddill yr Undeb a gwahodd holl fyfyrwyr Aberystwyth i ddarganfod mwy am ein traddodiadau ni yma yng Nghymru. Mae yna gyffro ac rwy'n edrych ymlaen at gyfrannu wrth i ddatblygiad yr Hen Goleg fynd yn ei flaen, y cynlluniau i ddathlu'n pen blwydd ac, wrth gwrs, at groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Dregaron. Yn bennaf oll, dwi am i fyfyrwyr UMCA gael blwyddyn i'w chofio wrth i ni ddychwelyd yn raddol wedi cyfyngiadau COVID-19.



## Sabina O'Donoghue


**Llywydd Undeb y Myfyrwyr**

Mae wedi bod yn wych croesawu ein myfyrwyr yn ôl ar y campws eleni, rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn o'n blaenau wrth i ni weithio gyda'n gilydd a gobeithio dychwelyd at normalrwydd. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed a'i gynrychioli gan yr Undeb trwy wella lles a chynrychiolaeth myfyrwyr. Gall hwn fod yn amser pryderus i lawer, yn enwedig y rhai nad ydynt efallai wedi cael cyfle i wneud ffrindiau yn eu blwyddyn gyntaf a'u hail flwyddyn oherwydd y pandemig, ac un o fy ymgyrchoedd ar gyfer y flwyddyn yw helpu myfyrwyr i deimlo cysylltiad a chefnogaeth a fydd, yn fy marn i, yn eu cynorthwyo i ddychwelyd i fyd y tu hwnt i COVID-19. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth gan brosiectau a ariennir gan gynfyfyrwyr ac rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eu haelioni. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gefnogi'r Brifysgol mewn sawl ffordd gan gynnwys gwneud ein rhan i helpu i godi arian ar gyfer Apêl yr Hen Goleg, prosiect cyffrous a fydd o fudd i fyfyrwyr ac yn cryfhau'r cysylltiadau rhyngom ni a'r gymuned leol.

## Cynnwys

2 Newyddion y Brifysgol
4 Yr Hen Goleg
6 Heddwch a Diogelu
8 Hanner canmlwyddiant Canolfan y Celfyddydau
11 Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
12 Cymru Fyw
14 Cyfweliad - Lance Batchelor
18 Eich rhoddion a'ch cefnogaeth
22 Yr Ysgol Addysg
26 Gwrthrychau Aber yn Gafael




PROM 30 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

**Cyhoeddwyd gan:** Prifysgol Aberystwyth

**Dyluniwyd gan:** Y Tîm Cyhoeddiadau Digidol a Phrint, Prifysgol Aberystwyth

**Argraffwyd gan:** McLays

**Ar y clawr:** Ymchwil Cymru Fyw (t12) Delwedd cydraniad gofodol Sentinel-2 (10m) o Gymru

Barn yr awduron unigol a fynegir yn PROM ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y deunydd a gyhoeddir, nid yw'r cyhoeddwr yn derbyn dim cyfrifoldeb am honiadau a wneir gan gyfranwyr.

## Ymchwil iechyd newydd yn helpu i achub pengwiniaid Affrica rhag difodiant

Mae academyddion ym Mhrifysgol Aberystwyth yn ymchwilio i sut mae afiechydon a llygredd yn cyfrannu at y cwymp ym mhoblogaeth pengwiniaid Affrica, rhywogaeth sy'n wynebu difodiant o fewn y tri deg i wyth deg mlynedd nesaf.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, amcangyfrifwyd bod poblogaeth o dros dair miliwn o'r rhywogaeth hon o bengwiniaid.

Fodd bynnag, mae'r boblogaeth wedi cwympo'n sylweddol oherwydd gor-gasglu wyau a gwano, ac, yn fwy diweddar, diffyg pysgod o ganlyniad i bysgota diwydiannol a newidiadau amgylcheddol. Erbyn heddiw, mae llai na 20,000 o barau.

Er bod nifer o'r bygythiadau allweddol i'r pengwiniaid yn hysbys, a bod ymdrechion enfawr wedi cael eu gwneud i ymdrin â hwy gan y llywodraeth ac asiantaethau preifat, ychydig sy'n hysbys am y bygythiadau i'r rhywogaeth o safbwynt clefydau a phroblemau iechyd.

Mae grŵp o bartneriaid rhyngwladol, o'r enw 'Iechyd Pengwiniaid Affrica', yn cynnal ymchwil mewn pum maes mewn ymdrech i ddarganfod y problemau iechyd sy'n cyfrannu at gwymp y boblogaeth.

Mae'r gwaith yn cynnwys cynnal arolwg ar iechyd y pengwiniaid drwy archwilio adar gwyllt, cymryd ystod o samplau er mwyn eu dadansoddi, chwilio am gemegau gwenwynig mewn adar sydd wedi marw, monitro arfordiroedd a nythfeydd gan ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion a dronau, asesiadau gan randdeiliaid a modelu newid yn y boblogaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect ar: https://africanpenguinhealth.co.za



*Pengwiniaid Affrica yn Namibia ©J Kemper*

## Prosiect ynni adnewyddadwy o bwys



Llun gan artist o ddatblygiad solar Prifysgol Aberystwyth, gan edrych tua'r dwyrain.

Mae'r Brifysgol wedi cael caniatâd cynllunio i osod paneli solar o'r radd flaenaf mewn safle wrth ymyl llety myfyrwyr Fferm Penglais, a fydd yn gam sylweddol ymlaen tuag at ei nod uchelgeisiol o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030.

Pan fyddant ar waith bydd y paneli solar ffotofoltaidd yn cynhyrchu tua 25% o anghenion trydan blynyddol Campws Penglais, sy'n cyfateb i'r ynni a ddefnyddir gan fwy na 500 o gartrefi. Mi fydd hyn, yn ei dro, yn arwain at arbed bron i 600 tunnell o garbon bob blwyddyn.

Bydd y safle 4 hectar, ar dir y mae'r Brifysgol eisoes yn berchen arno, yn costio ychydig llai na £2.9m ac yn creu arbedion ynni blynyddol gwerth mwy na £320k y flwyddyn. Dros oes y paneli, disgwylir y bydd y Brifysgol yn arbed bron i £14m mewn costau trydan.

Gobeithir y bydd y paneli solar wedi cael eu gosod erbyn mis Ebrill 2022.

## Byrgyrs chwilod neu fyrbrydau criced? Bwyd o bryfed ar y fwydlen ymchwil yn Aberystwyth

Gallai criciaid a chwilod gael eu gweini ar ein platiau yn amlach, diolch i ymchwil academaidd newydd.

Mae bwydydd o bryfed yn cynnig ffynhonnell protein fwy amgycheddol-gyfeillgar na llawer o fwydydd eraill, a gallent gynorthwyo i fwydo poblogaeth gynyddol y byd.

Ar ran Cymru, mae Prifysgol Aberystwyth yn cyfrannu at brosiect rhyngwladol, 'ValuSect', sy'n anelu at wella cynhyrchu a thechnegau prosesu pryfed yn gynaliadwy.

Dengys ymchwil fod tua 30% o gwsmeriaid yr UE yn fodlon bwyta bwyd a wnaed o bryfed. Mae ValuSect yn anelu at



*Bariau protein criciaid a gynhyrchwyd gan HOP, a gyd-sefydlwyd gan Dr Geoffrey Knott, cyn-fyfyriwr o Aber*

gynyddu'r nifer hwn drwy wella ansawdd cynhyrchu a phrosesu pryfed, cynnal profion blasu, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Canolbwyntia'r ymchwil ar allyriadau nwyon tŷ gwydr, yr effaith ar swbstradau, diogelwch bwyd ac ar oes silff y cynnyrch bwyd sy'n dod o bryfed.



## Academydd o Aberystwyth yn curadu archif BBC a ryddhawyd i nodi 85 mlynedd o adloniant teledu



*Dr Jamie Medhurst, Cyd-Gyfarwyddwr Canolfan Hanes y Cyfryngau, Prifysgol Aberystwyth a Darllenydd mewn Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu*

Mae academydd o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o greu casgliad archif newydd sy'n dathlu hanes cyfoethog y BBC o ddiddanu'r genedl.

Dr Jamie Medhurst yw Prif Guradur yr archif *Entertaining the Nation*, sy'n rhoi cipolwg unigryw ar adloniant darlledu ar hyd y blynyddoedd trwy gyfrwng cyfweliadau a ryddhawyd yn ddiweddar o Gasgliad Hanes Llafar y BBC, yn ogystal â llu o ffotograffau na welir yn aml.

Mae'r casgliad wedi cael ei ryddhau i nodi 85 mlynedd o adloniant teledu, ac mae'n rhan o brosiect BBC History: *100 Voices That Made The BBC*.

Esboniodd Dr Jamie Medhurst, Darllenydd mewn Ffilm, Teledu a'r Cyfryngau: "Mae gan y BBC draddodiad hir a balch o ddiddanu eu gwrandawyr a'u gwylwyr. Ers bron i ganrif, mae'r Gorfforaeth wedi cynhyrchu amrywiaeth o raglenni sydd wedi diddanu cynulleidfaoedd, eu galluogi i ddianc rhag eu bywyd bob-dydd, eu herio, a gwneud iddynt chwerthin a chrio. Drama a chomedi, chwaraeon a byd natur, darllediadau o ddigwyddiadau o bwys a rhaglenni wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer y gwledydd unigol – mae'r BBC wedi bod wrth galon darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Gyfunol.

"Mae'r mewnwelediadau a geir yn y cyfweliadau yng Nghasgliad Hanes Llafar y BBC yn hynod werthfawr. Cawn gyfle i glywed lleisiau, llawer ohonynt am y tro cyntaf, sy'n bwrw goleuni ar benderfyniadau polisi, rhaglenni, actorion … a'r hyn roedd Eric Morecambe yn ei feddwl o'r sgetsh Concerto Piano Grieg gydag Andre Previn!"

Mae'r casgliad llafar llawn "100 Voices that made the BBC: Entertaining the Nation" ar gael yn:

https://www.bbc.com/historyofthebbc/100-voices/entertaining-the-nation

## Gwyddonwyr i helpu i ragweld bygythiadau tywydd y gofod

Mae gwyddonwyr yr Haul yn yr Adran Ffiseg yn arwain prosiect newydd i wella gallu'r Swyddfa Dywydd i ddarogan tywydd y gofod a'r aflonyddu posibl ar weithgareddau ar y Ddaear all ddod yn ei sgil.

Gall stormydd uwchlaw wyneb yr Haul achosi niwed mawr i'n heconomi, gan effeithio ar loerennau, cyfathrebiadau radio, gridiau trydan a llwybrau hedfan awyrennau.

O gael rhybudd ymlaen llaw, fodd bynnag, gellir cymryd camau i liniaru ar effaith stormydd sy'n ffrwydro o'r Haul gan daro maes



*Credyd llun: NASA/SDO, gyda gwaith prosesu'r ddelwedd gan Dr Huw Morgan, Prifysgol Aberystwyth*


magnetig y Ddaear.

Teitl y prosiect yw Pecyn Ensemble Empeiraidd Tywydd y Gofod (SWEEP) a bydd yn para dwy flynedd a hanner. Fe'i harweinir gan Dr Huw Morgan, Pennaeth Ffiseg Cysawd yr Haul yn yr Adran Ffiseg.

"Mae atmosffer yr Haul yn llifo i mewn i'r gofod rhwng planedau ar ffurf gwynt solar. Mae echdoriadau solar yn achosi amrywiadau mawr yn y llif yma ac mae hyn yn gallu aflonyddu'n sylweddol ar y gymdeithas, yn enwedig o ystyried ein dibyniaeth gynyddol ar dechnoleg, o gyfathrebu drwy ffonau symudol i gyflenwadau trydan a theithio yn y gofod," eglurodd Dr Morgan.

"O gael rhybudd ymlaen llaw am dywydd garw yn y gofod, gellir lleihau ar y tarfu sy'n cael ei achosi gan echdoriadau a fflachiadau solar. Prif ddiben y prosiect felly yw gwella'r system rybuddio yma drwy broffwydo mwy cywir a chydnerth er mwyn helpu i ddiogelu cymdeithas rhag bygythiadau tywydd y gofod."

# Diweddariad ar brosiect yr Hen Goleg



Jim O' Rourke
Rheolwr y Prosiect

Mae'r gwaith ar yr Hen Goleg yn mynd rhagddo'n dda, ac edrychwn ymlaen at gychwyn ar y cam mwyaf cyffrous cyn hir. Wrth inni ysgrifennu hwn, mae'r penderfyniadau pwysig olaf yn cael eu gwneud ac fe roddwn wybod i chi am y camau nesaf cyn gynted ag y bo modd.

Ar ôl cynllunio'r gweithgareddau, y mannau addysgol, cymunedol a chynhyrchu incwm a chodi arian ers 2013 rydym ni bellach yn barod i weld trawsnewid yr adeilad hanesyddol ac annwyl hwn yn gyfleuster modern ar gyfer dysgu, hamdden ac ysbrydoliaeth wrth i'r brifysgol edrych tua'r dyfodol a dathlu ei gorffennol. Bu'n flwyddyn neu ddwy brysur iawn yn sicrhau caniatâd cynllunio a chydsyniadau eraill felly mae cael dechrau gweithio ar y safle yn gyffrous iawn. Ein gobaith yw cwblhau'r gwaith adnewyddu a'r estyniadau newydd ar ddechrau 2024 ac yna byddwn yn edrych ymlaen at eich gwahodd chi i weld yr hyn y byddwn wedi'i gyflawni dros ddegawd o baratoi wrth i ni gyflenwi'r ffitiadau terfynol i'r ystafelloedd a'r arddangosfeydd ar gyfer ein hymwelwyr cyntaf.



*Yr Hen Neuadd*

Yn y cyfamser, dyma gipolwg ar yr hyn y gallwn ei ddisgwyl yn y Cwad a'r Hen Neuadd hoff.

Mae mwy o ddelweddau ar-lein yn www.aber.ac.uk/hengoleg

Ond mae digonedd o heriau'n ein hwynebu o hyd wrth adnewyddu adeilad mor hanesyddol a gwerthfawr sydd wedi dioddef effaith y gwynt, yr heli a'r glaw mewn safle mor amlwg ers dros 150 o flynyddoedd. Mae sicrhau cyllid digonol yn hanfodol nawr, felly gofynnwn am eich cefnogaeth ar ran olaf y daith i ddod â Bywyd Newydd i'r Hen Goleg.



*Y Cwad*

## Trawsnewid yr Hen Goleg: Ffeithiau a Ffigurau

- **143** ystafell dros **7** llawr
- Disgwylir **200,000** o ymwelwyr y flwyddyn
- **48** o swyddi newydd
- **409** o gyfleoedd i wirfoddolwyr
- **10** lle ar gyfer cynulleidfaoedd o **60** - **200** o bobl
- **6** Oriel arddangos, gweithgareddau a digwyddiadau mewn **20** lle ar gyfer hyd at **1,000** o ymwelwyr mewn gwyliau neu ddigwyddiadau mawr
- Mannau addysgu, astudio ac ymchwil dros **4** llawr
- Parth Ieuenctid pwrpasol a Gweithiwr Ieuenctid at ddefnydd myfyrwyr a'r gymuned
- **12** uned busnes creadigol
- **5** stiwdio i artistiaid a gweithdai i Argraffwyr Aberystwyth
- **3** bwyty/caffi, **4** bar a mannau arlwyo dros dro ar draws yr adeilad
- **31** ystafell wely **4***

# Y Diweddaraf ar Apêl codi arian yr Hen Goleg



Louise Jagger, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni

## MAE ANGEN EICH HELP CHI ARNOM NI

Rydym yn hynod o ddiolchgar am y gefnogaeth aruthrol gan amrywiaeth eang o gefnogwyr sydd wedi rhoi mor hael ar bob lefel. Hyd yn hyn, mae ein cyn-fyfyrwyr a'n ffrindiau ar draws y byd wedi codi £1.3m trwy roddion ac addewidion. Rydym ni hefyd wedi codi £2.1m drwy Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, ac mae llawer ohonynt yn dyfarnu grantiau i'r Brifysgol am y tro cyntaf erioed, a hynny am symiau na welwyd mo'u tebyg yng Nghymru o'r blaen.

Bydd ein hymdrechion uchelgeisiol i godi arian yn parhau tan i ddrysau'r Hen Goleg ailagor, a'r Apêl hon fydd blaenoriaeth codi arian y Brifysgol ym mlwyddyn ei phen-blwydd yn 150 oed. Wrth i Prom fynd i'r wasg, rydym yn prysur gynllunio ein hymgyrchoedd codi arian nesaf, gan gynnwys ein hymgyrch gyntaf erioed i godi arian drwy gyllido torfol digidol yn hwyrach eleni. Byddwn yn creu fideo i ysbrydoli rhoddwyr a hyrwyddo'r Apêl ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect a'r bwlch ariannu.

Bydd cefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr yn parhau i fod yn hanfodol. Gobeithiaf y cewch eich ysbrydoli i ymuno â ni ar y siwrnai hon a'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth i drawsnewid yr adeilad pwysig, annwyl hwn.

Mae'n hawdd iawn cyfrannu, boed hynny trwy'r llythyr Apêl amgaeedig neu ar-lein trwy glicio ar y ddolen isod. Mae pob rhodd yn cyfrif ac rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth wych ein cymuned o gyn-fyfyrwyr a ffrindiau ar draws y byd.

Hoffem ddiolch yn benodol i Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Clwb Alumni Malaysia ac Undeb y Myfyrwyr am eu cefnogaeth.

www.aber.ac.uk/apel

*I gael rhagor o wybodaeth ar y prosiect neu'r Apêl, gan gynnwys cyfleoedd i gydnabod rhoddwyr, Cymorth Rhodd neu roddion rhyngwladol, cysylltwch â ni: alumni@aber.ac.uk*

# Casgliadau a hanes y Brifysgol



Cara Cullen, Ymchwilydd Casgliadau

Bu'n flwyddyn gyntaf gyffrous yn fy rôl newydd yn ymchwilio i gasgliadau a hanes y Brifysgol. Mae ein casgliadau'n eithriadol o amrywiol, yn rhychwantu pob adran, o amgueddfa ac orielau trawiadol yr Ysgol Gelf i sbesimenau sŵolegol, herbaria, llyfrau prin a mwy. Rwy'n ei theimlo'n fraint cael y cyfle i bori drwyddyn nhw a chasglu'r eitemau mwyaf anarferol, trawiadol neu gudd i'w harddangos.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf i wedi cydweithio'n agos gyda'r cwmni cynllunio arddangosfeydd Mather & Co ac roedd yn gyffrous cael gweld y dyluniadau cysyniadol cyntaf ar gyfer yr orielau a gwblhawyd yr haf hwn. Yn ogystal â'r oriel barhaol i arddangos hanes y Brifysgol, bydd oriel wyddoniaeth bwrpasol (a ariennir gan Sefydliad Wolfson) i ddathlu ymchwil arloesol dros 150 o flynyddoedd. Pan fydd yr oriel yn agor byddaf i'n arbennig o falch o'r nifer o fenywod anhygoel mewn gwyddoniaeth y bydd eu straeon i'w gweld.

I'r rheini ohonoch a ddaeth i'n cyfres o Weminarau byddwch yn gwybod fy mod wedi bod yn cydweithio'n agos gyda thîm archifau'r Brifysgol, y swyddfa cysylltiadau alumni a'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr i chwilio am wrthrychau a straeon eiconig Aber yn Galw dros y cenedlaethau. Hoffwn ddiolch i'r holl gyn-fyfyrwyr, staff sydd wedi ymddeol a ffrindiau sydd wedi cefnogi fy ngwaith a rhannu eu hatgofion. Pan fydd yr Hen Goleg yn agor, byddwn yn gallu arddangos y gemau cudd o'r archifau am y tro cyntaf. Os oes gennych chi unrhyw eitemau o'r wythnos RAG, baneri protest neu ffotograffau, byddem ni wrth ein bodd yn clywed gennych chi – alumni@aber.ac.uk

# "Nid yw heddwch yn gyflwr, mae'n frwydr barhaus": Ymchwil Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn cyfrannu at heddwch a diogelu



gan yr Athro Berit Bliesemann de Guevara
Cadair Bersonol, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Wrth fyw yng Nghymru, mae'n hawdd anghofio na allwn gymryd heddwch yn ganiataol a bod pobl ar draws y byd yn brwydro'n ddyddiol am fywyd diogel gydag urddas. Mae dau brosiect yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth ar hyn o bryd yn ceisio cyfrannu'n gadarnhaol i ymdrechion o'r fath.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae prosiect *(Un-) Stitching Gazes*, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Antioquia, Medellín, wedi edrych ar broses ailintegreiddio milwyr gerila ar ôl y cytundeb heddwch yn 2016 rhwng llywodraeth Colombia a Lluoedd Arfog Chwyldroadol Colombia (FARC).[1] Y cwestiwn a holwyd oedd sut, yn adladd brwydro treisgar, mae pobl – cyn-ymladdwyr, eu cefnogwyr, eu dioddefwyr, a'r gymdeithas yn ehangach – yn (ail)awduro eu bywydau er mwyn parhau i fyw a chyd-fyw.

Defnyddiwyd cyfweliadau bywgraffyddol naratif gan wahodd ein cyfranogwyr i gofnodi eu dewis straeon drwy frodwaith. Roedd ein gwaith yn datod y categorïau di-ildio, sef y gorthrymwyr a'r dioddefwyr, ac yn dangos cymhlethdod degawdau o drais arfog a strwythurol, gan amlygu dynoliaeth gyffredin y gwahanol weithredwyr yng Ngh† olombia.

Hefyd arddangoswyd y naratifau brodwaith hyn i sbarduno dialog yng nghymdeithas Colombia, lle caiff llofnodwyr heddwch FARC yn aml eu portreadu fel 'gelynion' o hyd. Mae dialog o'r fath yn hanfodol mewn cyd-destun lle caiff llofnodwyr heddwch, gweithredwyr dros hawliau dynol a'r amgylchedd ac arweinwyr cymdeithasol eu lladd yn ddyddiol (ymhell dros 1,000 ers 2016), tra bo'r wladwriaeth yn anwybyddu trais gwladwriaethol, parafilwrol a throseddol. Efallai fod gan Golombia gytundeb heddwch, ond mae heddwch, urddas a diogelwch yn parhau'n frwydrau dyddiol i lawer o bobl Colombia, a cheisiodd ein prosiect ni gyfrannu mewn ffordd fach.



*Ffig. 1: Grŵp o lofnodwyr heddwch benywaidd FARC yn brodio darnau o'u bywydau, eu gobeithion a'u hofnau, San José de León, 2019 (llun: Laura Coral)*

1 Gwefan y prosiect (Saesneg a Sbaeneg): https://des-tejiendomiradas.com



*Ffig. 2: Arddangosfa'r prosiect yn San José de León, pentref a adeiladwyd gan gyn-filwyr gerila FARC, Antioquia, Colombia, 2019 (llun: Laura Coral)*

Nid Colombia yw'r unig le anniogel yn y byd i sifiliaid – o bell ffordd. Yn ôl Asiantaeth Ffoaduriaid y CU, bellach mae mwy o bobl nag erioed, 82.5 miliwn, wedi'u dadleoli gan wrthdaro treisgar, a sifiliaid sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o farwolaethau pan geir gwrthdaro arfog. Yn yr argyfwng byd-eang hwn, nid yw'r ymdrechion rhyngwladol presennol i ddiogelu pobl yn agos at fod yn ddigonol. Er eu bod yn dal i gael eu defnyddio'n eang, mae lluoedd cadw heddwch arfog yn arbennig yn gostus, yn ddadleuol yn wleidyddol a does dim modd eu hanfon i bob gwlad lle mae angen diogelu sifiliaid.

Mae ein rhwydwaith ymchwil rhyngwladol *Creating Safer Space* felly'n ceisio cryfhau ac ehangu strategaethau ar gyfer diogelu sifiliaid heb arfau a hunan-ddiogelu ymhlith cymunedau. Mae'r dull hwn wedi'i brofi i fod yn isel ei gostau, yn hyblyg ac yn effeithiol.[2] Er enghraifft, mae ein sefydliadau partner rhyngwladol a lleol yn monitro'r cadoediad rhwng lluoedd Islamaidd a llywodraethol yn y Ffilipinau; yn darparu personêl gwarchodol i weithredwyr amgylcheddol yng Ngholombia; yn atal recriwtio plant dan oed yn orfodol ym Myanmar; ac yn diogelu menywod rhag trais ar sail rhywedd yn Ne Sudan (Ffig. 3).

Y flwyddyn nesaf, mewn cam ymchwil cyntaf, bydd aelodau ein rhwydwaith yn cynnal 11 o brosiectau i fesur anghenion diogelwch, dysgu gan fentrau a seilweithiau sy'n bodoli eisoes, ac archwilio sut y gellir cynyddu diogelwch heb arfau i sifiliaid er budd mwy o bobl yn ein gwledydd prosiect: Colombia, Indonesia, Kenya, Myanmar, y Ffilipinau, Gwlad Thai a De Sudan. Mae cynlluniau ail gam ar y gweill ond bydd hynny'n dibynnu ar ymrwymiad y DU yn y dyfodol o ran cymorth datblygu swyddogol, sef ffynhonnell ein cyllid.

Gyda'i ffocws ar wella ac ehangu galluoedd presennol ar gyfer (hunan)ddiogelu sifiliad-i-sifiliad di-drais, ac ar newid y ffordd rydym ni'n meddwl ac yn siarad am ddiogelwch, nod Rhwydwaith *Creating Safer Space* yw helpu i ddatblygu'r stori a'r ymagwedd amgen hon i fod yn strategaeth ddyngarol ddiofyn ar gyfer y dyfodol.




*Ffig. 3: Aelodau o Dimau Cadw Heddwch Menywod Nonviolent Peaceforce yn Ne Sudan (llun: Nonviolent Peaceforce)*

*Mae Berit Bliesemann de Guevara, PhD, yn Athro yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth ac yn brif ymchwilydd ar y ddau brosiect a gyflwynir yma. Mae ei hymchwil i heddwch a gwrthdaro wedi mynd â hi i Golombia, Bosnia a Herzegovina, Kosovo a Myanmar. E-bost:* beb14@aber.ac.uk

*Cyllidwyd prosiect (Un-)Stitching Gazes gan Gronfa Newton (cyfeirnod AH/R01373X/1) a Minciencias (cyfeirnod FP44842-282-2018). Cyllidir Rhwydwaith Creating Safer Space gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) drwy'r Gronfa Heriau Byd-eang (GCRF) (cyfeirnod AH/T008024/1).*

2 Gwefan y prosiect: https://creating-safer-space.com

# Canolfan y Celfyddydau yn Dathlu ei Hanner Can Mlwyddiant

Yn ystod y 1970au y crëwyd Canolfan y Celfyddydau, pan adeiladwyd hi gan Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, fel yr oedd ar y pryd, er mwyn gwasanaethu'r Coleg ond hefyd y dref a'r siroedd cyfagos, yn ogystal ag ymwelwyr blynyddol - gan gynnwys, wrth gwrs, ein cyn-fyfyrwyr o bedwar ban byd.

Agorwyd y Neuadd Fawr yn 1970, ac erbyn Hydref 1972 roedd y theatr yn barod i'w defnyddio a ganwyd Canolfan y Celfyddydau.

Yn y blynyddoedd cynnar roedd Peter Postlethwaite a Julie Walters ymhlith yr actorion lu a droediodd lwyfan y Ganolfan ac sydd bellach yn enwau cyfarwydd. Bu David Bowie yn perfformio yma yn 1972, a gwnaeth Michael Ball ei ymddangosiad cerddorol cyntaf yn ystod cynhyrchiad yr haf yn 1988, sef 'Godspell'! Mae miloedd lawer o actorion, cerddorion, arlunwyr, beirdd a dawnswyr wedi perfformio yma dros y pedwar degawd diwethaf, gan roi'r cyfle i gynulleidfaoedd gael profiad o waith gwych ym mhob un o'r ffurfiau celfyddydol.

Ers y cychwyn cyntaf, mae polisi rhaglennu Canolfan y Celfyddydau yn un amrywiol a chymysg, gan annog a chefnogi grwpiau lleol ac *ensembles* y Brifysgol, yn ogystal â gwahodd artistiaid a chwmnïau proffesiynol nodedig sy'n enwog yn rhyngwladol yma i Aberystwyth. Mae'n darparu'r rhaglen fwyaf i'r celfyddydau cymunedol yng Nghymru, ac yma y mae llu o bobl ifanc yn cael eu profiad cyntaf o'r celfyddydau. Mae'r aelodau o'n Theatr Ieuenctid a'n Hysgol Ddawns sydd wedi symud ymlaen i yrfaoedd llwyddiannus yn y celfyddydau perfformio yn cynnwys, yn fwyaf diweddar, Taron Egerton, seren *Rocketman* a *Kingsman*, a Gwyneth Keyworth, sydd wedi ymddangos yn *Hidden/Craith* ar gyfer y BBC/S4C yn ddiweddar.

Yn dilyn perfformiadau IanMcKellen ar ei daith o amgylch 80 o theatrau yn ei 80fed flwyddyn, pan werthwyd pob tocyn, sefydlodd Canolfan y Celfyddydau fwrsariaeth flynyddol, ar y cyd â'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni, i roi cefnogaeth ariannol i bobl ifanc i'w galluogi i ddilyn hyfforddiant ac i ddatblygu astudiaethau yn y celfyddydau creadigol. Mae'r cynllun bellach ar ei drydedd flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth, gan danlinellu ymroddiad Canolfan y Celfyddydau i bobl ifanc.



*Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, tua 1971*

Nid oes ofn bod yn ddadleuol ar Ganolfan y Celfyddydau ychwaith. Cewch gip yn aml ar un o sêr y ffilm *Monty Python's Life of Brian*, (a chyn-faer Aberystwyth) Sue Jones-Davies, naill ai'n gweithio yn rhan o'n tîm Blaen y Tŷ neu'n galw heibio. Un o uchafbwyntiau hanner can mlynedd cyntaf Canolfan y Celfyddydau oedd dangosiad arbennig o'r ffilm yn 2008, â Michael Palin a Terry Jones yn y gynulleidfa. Roedd y ffilm wedi cael ei gwahardd ar y pryd oherwydd y canfyddiad bod ei chynnwys yn gableddus, felly pan aethom ati i 'dorri'r gwaharddiad' ar ddangos y ffilm yn Aberystwyth cafwyd sylw ar y cyfryngau a chriwiau teledu o bedwar ban byd!

Mae'r celfyddydau gweledol wastad wedi bod yn rhan hynod o bwysig o waith Canolfan y Celfyddydau, a dangoswyd gwaith miloedd o artistiaid dros y blynyddoedd, gan ddod â goreuon byd celf i'r Canolbarth. O Tracey Emin i David Bailey, a Mary Lloyd Jones i Grayson Perry, mae ein rhaglen wedi rhoi llwyfan i artistiaid cyfoes ym maes celfyddyd gain, crefftau a serameg. Mae ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys datblygiadau newydd i'n horielau yn rhan o raglen uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer celf gyfoes yng Nghymru.

Mae'r sinema wedi datblygu i fod yn rhan fawr o'n rhaglen, ers ychwanegu sinema bwrpasol yn ôl yn 2000. O Ŵyl Ffilmiau Arswyd Abertoir, sydd wedi datblygu'n rhan fwyfwy pwysig o'n harlwy dros y deng mlynedd diwethaf ac sydd bellach yn arwain y blaen o ran y *genre* arswyd, i ffilmiau i'r teulu, ffilmiau celfyddydol a'r ffilmiau



UNIVERSITY COLLEGE OF WALES

£300,000 theatre opening at European-scale centre

Aberystwyth

*Cambrian News, 19 Ebrill, 1973*



*Caffi Canolfan y Celfyddydau 2021*

mawr, dyma le diogel a chroesawgar i wylio ffilmiau ar y sgrin fawr.

Mae Canolfan y Celfyddydau yn ganolbwynt cymdeithasol i'r Brifysgol trwy gydol y dydd, a'r caffi yn galon i'r adeilad. Dyna pam mae Canolfan y Celfyddydau yn lle mor arbennig, â grwpiau o staff a myfyrwyr yn cwrdd ac yn ymlacio ochr yn ochr ag aelodau o'r cyhoedd neu blant ysgol lleol ac ymwelwyr.

Heddiw, mae Canolfan y Celfyddydau yn rhan hanfodol o'r Brifysgol a dyma ein prif ryngwyneb â'r gymuned leol a rhanbarthol. Mae'n un o'r canolfannau mwyaf i'r celfyddydau perfformio a gweledol yn y Deyrnas Unedig, ac wedi'i lleoli yng nghanol campws y Brifysgol, gan groesawu dros 650,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Ers y dyddiau cynnar hynny yn y 70au ychwanegwyd at yr adeilad a'i ddatblygu, ac mae'r gweithgarwch wedi cynyddu. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n datblygu gweledigaeth newydd er mwyn sicrhau bod gennym adeilad pwrpasol ar gyfer yr hanner can mlynedd nesaf - ond bydd yr uchelgais sylfaenol yn aros fel y bu, sef dod â'r gorau oll i'n cymunedau. Rydym wedi cyflawni cryn dipyn mewn hanner can mlynedd, ac rwy'n sicr y bydd yr hanner can mlynedd nesaf yr un mor gyffrous!



*Dafydd Rhys, Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau*



Yr Athro Gareth Griffith, Pennaeth Grŵp Microbioleg IBERS



*Cyrff hadol Bonet y Coed (Mycena galericulata) ar gangen farw*

# Prifysgol Aberystwyth yn cynorthwyo prosiectau bargodio DNA Gwyddoniaeth Dinasyddion

Gwyddoniaeth Dinasyddion yw'r ymadrodd a ddefnyddir i ddisgrifio cyfraniadau i wybodaeth wyddonol a wneir gan wyddonwyr amatur neu'r rhai nad ydynt yn wyddonwyr proffesiynol. Ers cryn amser, mae cyfraniadau o'r fath yn chwarae rhan wrth fonitro bioamrywiaeth, ond erbyn hyn mae gwyddonwyr lleyg yn gallu manteisio fwyfwy ar dechnolegau mwy datblygedig.

Mae David Harries (Cemeg 1972) a'i gyd-aelodau o Rwydwaith Cofnodi Ffyngau Sir Benfro (PFRN) wedi sefydlu prosiect ar raddfa fach i echdynnu DNA o ffyngau ac i fwyhau rhanbarth y cod bar trwy'r dull PCR (yn debyg i'r ffordd y gwahaniaethir rhwng gwahanol amrywiolion SARS-CoV-2). Dechreuodd eu gwaith ym myd bargodio ffyngau dros 5 mlynedd yn ôl, gydag anogaeth a hyfforddiant gennyf innau a chydweithwyr yn IBERS. Mae rhwydwaith Sir Benfro bellach yn un o bum grŵp mycoleg maes yn y Deyrnas Gyfunol sy'n defnyddio bargodio DNA i gynorthwyo â'r gwaith o gofnodi ffyngau a'u diogelu. Mae'r prosiectau cyfredol yn cynnwys bargodio gwahanol fathau o ffyngau'r rhwd, neu'r 'gawod goch', gan Dr Nigel Stringer (BSc PhD Botaneg, 1971/1977), sy'n arbenigwr ar y gawod goch, i'w gynorthwyo i ddiweddaru'r gyfundrefn enwi a ddefnyddir i'r rhywogaethau hyn sydd i'w cael yng Nghymru yn unol â'r cysyniadau mwy modern a ddefnyddir gan arbenigwyr Ewropeaidd yn y maes.

Er y gellir paratoi rhanbarth cod bar DNA ffyngau mewn labordy yn y cartref, rhaid cyflawni cam olaf y dadansoddi mewn canolfan ddilyniannu arbenigol – yn yr achos hwn adnodd dilyniannu Sanger yn IBERS ar gampws Plas Gogerddan, lle mae Caron Evans yn rhoi cymorth amhrisiadwy trwy dderbyn a phrosesu samplau, a rhoi cymorth a chyngor lle bo angen. Bu Zoe Boardman, myfyrwraig ar Flwyddyn Integredig mewn Diwydiant, yn gweithio yn ein labordai ac yn cynnal astudiaethau genetig o'r ffwng tafod daear gwyrdd *Microglossum,* rhywogaeth sydd mewn perygl, ar y cyd â David a Caron.

Cydnabuwyd gwerth y gwaith bargodio hwn gan Gymdeithas Fycolegol Prydain (BMS), sy'n ariannu costau dilyniannu'r pum grŵp maes, ac mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan Dr Brian Douglas (BSc Gwyddor Amgylcheddol [2010], PhD [2014]; sydd bellach yn gweithio yn y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew). Dechreuodd y rhaglen hon yn 2020, ac mae'n enghraifft wych o'r ffordd y mae'r Brifysgol a'i staff wedi cydweithio â'r BMS i gefnogi gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddion. Mae'r astudiaethau cychwynnol eisoes wedi canfod rhywogaethau sy'n newydd i Brydain, ac fe allent arwain at ddarganfod rhywogaethau sy'n newydd i wyddoniaeth.



*David Harries (Chwith) yn dangos gwaith Labordy Bento*

Mae'n briodol yma grybwyll gwaith Stan Hughes (CPC, Botaneg 1941) un o brif fycolegwyr yr 20fed ganrif a fu farw ddiwedd 2019, yn 102 oed. Roedd Stan yn gefnogwr selog o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr a threfnai ei ymweliadau ef â Chymru i gyd-daro ag Aduniad Pasg y Gymdeithas, yn fwyaf diweddar yn 2012. Roedd yn ysbrydoliaeth fawr i'r rhan fwyaf ohonom sy'n rhan o'r ymdrech bresennol hon ac roeddem wrth ein bodd pan gafodd ei ethol yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ddechrau 2019, y cyntaf, a'r unig un, o Gymrodyr y Gymdeithas i gyrraedd can mlwydd oed.

Datblygiad arall ym maes mycoleg fu nawdd David Harries (Cemeg 1972) i Ysgoloriaeth Haf Mycoleg Holly a David Harries. Y cyntaf i dderbyn y wobr hon oedd Lizzie Waring a raddiodd â gradd Dosbarth Cyntaf mewn Ecoleg yn 2020 ac sydd bellach yn ymgymryd â rhaglen astudio MPhil, ar y cyd â Germinal Holdings, ar glefydau ffyngaidd mewn rhygwellt lluosflwydd.





# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr



Lauren Marks, Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn arbennig dros y misoedd diwethaf wrth i bethau ddechrau ailagor yn y Deyrnas Unedig, fe'm tarwyd gan bwl o hiraeth go iawn. Nid wyf wedi gallu dychwelyd i Aberystwyth yn rheolaidd, ac mae hwn yn un o'r pethau rwyf wedi gweld eu heisiau'n fawr drwy gydol y pandemig. Serch hynny, wrth inni ymaddasu ac esblygu, byddaf i ac eraill nad ydynt wedi gallu ymweld ag Aberystwyth a dod ynghyd, yn gallu gwneud hynny unwaith yn rhagor yn fuan iawn. Er bod digwyddiadau a chyfarfodydd ar-lein wedi ein cynnal ni'n ddiweddar, does dim byd gwell na mynd am dro ar hyd y prom a gweld yr Hen Goleg yn edrych yn urddasol dros y môr!

Mae cael fy ethol yn Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr am y ddwy flynedd nesaf yn anrhydedd, ac mae'n braf gallu meithrin cysylltiadau â chynifer o gyn-fyfyrwyr o bedwar ban byd ac o blith gwahanol garfannau o fyfyrwyr dros y blynyddoedd. Hwn yw un o'm hoff bethau am Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Hoffwn ddiolch o waelod calon i Gwenda Sippings am ei hymrwymiad i'r Llywyddiaeth dros y tair blynedd diwethaf. Roedd yn bleser cael ei chefnogi fel Is-Lywydd yn ystod y cyfnod hwn.

Edrychaf ymlaen at barhau i achub ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r Gymdeithas i gadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol a chyda myfyrwyr presennol wrth i bethau cyffrous iawn ddigwydd. Cyfnod i ddathlu a bod yn optimistaidd fydd y ddwy flynedd nesaf. Un digwyddiad penodol fydd dathliadau pen-blwydd y Gymdeithas yn 130 oed yn 2022. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill fydd ailddatblygu'r Hen Goleg a'r seremonïau graddio hirddisgwyliedig.

Rydym yn aml yn sôn yn y Gymdeithas am Ysbryd Aber ymhlith ein cyn-fyfyrwyr, ni waeth beth oedd eu pwnc na phryd y daethant yma. Er nad ydym wedi gallu dod at ein gilydd yn y cnawd, mae ein haelodau wedi dangos yn glir bod Ysbryd Aber yn dal yn gryf ynom ac y bydd y cyswllt arbennig hwn yn parhau o ganlyniad i'r profiad cyffredin o fod wedi astudio yn Aber. Mae'r ysbryd hwn wedi bod yn amlwg iawn yn ymdrechion arloesol ein haelodau i gynnal digwyddiadau a dod o hyd i ffyrdd newydd o gysylltu â'n gilydd, ac yn eu hymrwymiad cyson i'r Gymdeithas a'u cefnogaeth i'r Brifysgol, hyd yn oed mewn pandemig. Yn sicr ddigon, mae hwn wedi bod yn rym cadarnhaol iawn mewn cyfnod anodd. Hefyd, o safbwynt personol, cwrddais â'm partner yn Llundain ychydig flynyddoedd ar ôl imi adael Aber; gadawodd Aber ddwy flynedd cyn imi ymuno â'r Brifysgol, felly ni chroesodd ein llwybrau fyth. Serch hynny, rwy'n siŵr mai Ysbryd Aber a ddaeth â ni at ein gilydd yn hwyrach (diolch, Aber!).

Edrychaf ymlaen at barhau i achub ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil bod yn rhan o'r Gymdeithas i gadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol a'i myfyrwyr presennol mewn cyfnod o ddatblygiadau cyffrous. Os hoffech wybod mwy, ewch draw i'n gwefan lle gallwch fanteisio ar Aelodaeth Oes, neu cysylltwch â ni. Wrth gwrs, bydd ein holl raddedigion yn wastad yn gyn-fyfyrwyr a byddant yn parhau i gael y newyddion diweddaraf drwy'r Swyddfa Datblygu a chysylltiadau Alumni.

---

www.ccfaber.org
www.aber.ac.uk/cy/development/osa/



# Cymru Fyw – System Monitro Tir a all weithio yn Fyd-eang a ddatblygwyd ar gyfer Cymru




Gan yr Athro Richard Lucas
Cadair Sêr Cymru
Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear

**Mae'r byd yn newid yn gyflym ac mae angen monitro ein tirweddau ar frys a chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer y dyfodol, yn enwedig o ystyried yr argyfyngau presennol yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth a'r angen am ddefnydd cynaliadwy o'n tir a'n hadnoddau.**

Mae Cymru Fyw yn gysyniad unigryw a newydd – y cyntaf yn y byd – sy'n defnyddio data lloeren i ddal gwybodaeth ofodol fanwl ar gyflwr a dynameg tirwedd Cymru, mewn amser real (agos) ac yn hanesyddol (er 1985), i lywio rheolaeth a pholisi tir i'r dyfodol. Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu gan raglen Sêr Cymru II Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Llywodraeth Cymru, wedi bod yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau ledled y wlad, y DU yn ehangach ac yn rhyngwladol i sefydlu dull o fonitro tir y gellir ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru ond hefyd mewn gwledydd a rhanbarthau eraill.

Mae'r dull yn defnyddio data lloeren i efelychu sut mae pobl yn disgrifio ac arsylwi ar dirweddau ar lawr gwlad a sut mae'r tirweddau hynny yn newid (gweler Blwch 1). Ar gyfer hyn, gwneir defnydd o dacsonomeg dosbarthu gorchudd tir sy'n berthnasol yn fyd-eang ac sy'n raddadwy ac sy'n gofyn yn gyntaf am ddisgrifiadau bras o dirweddau, megis a ydynt yn cynnwys yn bennaf lystyfiant naturiol neu wedi'i drin, adeiladau, arwynebau moel neu ddŵr. Yna defnyddir disgrifiadau categorïaidd neu rifiadol pellach mewn dilyniant rhesymegol a chynyddol i lunio dosbarthiadau manylach. Ar gyfer monitro newid, cymharir yr wybodaeth hon a gasglwyd dros amser i gasglu tystiolaeth o bwysau ac effeithiau naturiol a rhai a achosir gan bobl yn ôl tacsonomeg sy'n berthnasol yn fyd-eang ac a ddiffiniwyd ymlaen llaw.




Gan ddefnyddio'r dull hwn, cynhyrchwyd mapiau blynyddol o orchudd tir a gwybodaeth gyfrannol ar gyfer Cymru (Blwch 2) a'u rhyddhau trwy geoborth sydd ar gael i'r cyhoedd (wales.livingearth.online). Am y tro cyntaf, mae'r mapiau hyn yn darparu adnodd, sy'n agored ac yn tyfu, i bobl yng Nghymru gael gwybod am y newidiadau yn y gorffennol a'r presennol sydd wedi llunio'r dirwedd genedlaethol yn ogystal â ffordd newydd o ragweld tirweddau'r dyfodol o dan wahanol sefyllfaoedd newid.

Er mwyn i'r cyhoedd gael gweld y mapiau gorchudd tir ar gyfer Cymru yn ogystal â gwybodaeth arall sy'n deillio o loerenni ac sy'n dangos sut mae defnydd tir a newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr amgylchedd, mae Cymru Fyw wedi sefydlu cyfleuster arddangos a hyfforddi yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen ger Machynlleth. Mae arddangosfa debyg hefyd yn cael ei datblygu a fydd i'w gweld pan fydd Hen Goleg Prifysgol Aberystwyth yn ailagor ar ei newydd wedd.

Yn rhan o'r arddangosfa hon mae elfennau sy'n cynnwys allbynnau o ystod o brosiectau synhwyro o bell a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae'r rhain yn cynnwys mapiau gorchudd tir am sawl blwyddyn ar gyfer Awstralia, a gafodd eu cynhyrchu ac sy'n parhau i gael eu cynhyrchu ochr yn ochr â Cymru Fyw, delweddau manwl o bob cwr o'r byd a gafwyd gan ddata synhwyrydd lloeren cydraniad uchel PlanetLab, a mapiau byd-eang o arwynebedd llystyfiant mangrof a sut mae'n newid a gynhyrchwyd trwy Global Mangrove Watch. Mae Menter Newid Hinsawdd (CCI) Asiantaeth Ofod Ewrop (ESA) hefyd yn nodwedd amlwg iawn gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am newid yn yr hinsawdd. Mae arddangosfa ESA hefyd yn darparu tri map byd-eang o'r tunelledd o fiomas a gedwir yng nghoedwigoedd y Byd a gynhyrchwyd yn ddiweddar trwy brosiect Biomas CCI, sy'n cael ei reoli a'i gydlynu gan Aberystwyth. Mae'r mapiau hyn yn cael eu defnyddio i ddilysu allbynnau modelau hinsawdd byd-eang, i helpu i ddatblygu modelau o'r fath, ac i bennu effeithiau tebygol yn y dyfodol yn well yn ogystal â rhoi mewnwelediadau newydd i ddeinameg carbon llystyfiant. Dangosir y mapiau hyn yng Nghynhadledd y Partïon (COP) yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021.

O dan arweinyddiaeth yr Athro Richard Lucas, mae Cymru Fyw yn dod â thîm o wyddonwyr ymchwil ynghyd yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear:

- Dr Suvarna Punalekar, Gwyddonydd Synhwyro o Bell a Data
- Dr Carole Planque, Cymrawd Ymchwil Ôl-ddoethurol - Gwyddonydd Synhwyro o Bell a Data
- Mr Sebastien Chognard, Gwyddonydd Data a Myfyriwr Uwchraddedig
- Mr Clive Hurford, Gwyddonydd Ymchwil a Syrfëwr Maes

Mae Cymru Fyw wedi rhyddhau mapiau cydraniad 10m o orchudd tir ar gyfer Cymru, wedi'u creu o ddisgrifwyr amgylcheddol a gafwyd o radar gwyliedydd a data optegol. Cyhoeddwyd y map diweddaraf (ar gyfer 2020) ym mis Hydref 2021.



**Map Cymru Fyw o orchudd tir ar gyfer 2020**

Mae'r mapiau hyn yn cael eu cymharu i ganfod newidiadau ym maint a chyflwr gorchudd tir. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, gan gynnwys cyfrif am garbon mewn coedwigoedd ac ecosystemau eraill, cynllunio adfer ecosystemau, a mynd i'r afael â'r amcanion datblygu cynaliadwy fel y'u gosodwyd gan y Cenhedloedd Unedig.



**Is-set o fap Cymru Fyw ar gyfer Aberystwyth sy'n tynnu sylw at ddosbarthiad gwahanol fathau o goedwigoedd a chnydau, dŵr a llystyfiant lled-naturiol o amgylch y dref.**

Gallwch ddysgu mwy am Cymru Fyw a'r mapiau hyn yn https://wales.livingearth.online/ neu trwy ymweld â'r arddangosfa yn y Ganolfan Dechnoleg Amgen (Machynlleth).

# Cyfweliad – Lance Batchelor

**Astudiodd Lance Batchelor Wleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Strategol yn Aberystwyth, gan raddio yn 1985, a chyflwynwyd Cymrodoriaeth y Brifysgol iddo yn 2017. Ar ôl gwasanaethu yn y Llynges Frenhinol cyflawnodd MBA yn Ysgol Fusnes Harvard cyn dechrau ar yrfa fel uwch reolwr mewn gwahanol sefydliadau, fel y cwmni ifanc yn Seattle o'r enw Amazon, ac fel Prif Swyddog Gweithredol Grŵp Saga. Bu'n sgwrsio â fi o'i gartref yn Berkshire.**

**Pam ddewisoch chi Aberystwyth i wneud eich gradd?**
Pan oeddwn i'n 18 y cyfan oeddwn i am ei wneud oedd ymuno â'r Llynges a mynd i'r môr. Doeddwn i ddim wir yn awyddus i fynd i'r brifysgol o gwbl. Ond roedd gen i fam-gu wych a ddywedodd ei bod yn syniad gwallgof mynd i'r Llynges heb radd - a phan fyddwn i'n gadael, y byddai angen gradd er mwyn cael y math iawn o ddyfodol.

Dyma bori drwy brosbectws adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Aberystwyth a meddwl "Wow! Ti'n gallu astudio hynna...? Dyna drawstoriad difyr o bynciau". Fe'm swynwyd gan y maes llafur, ac wrth ymgeisio, Aber oedd fy newis cyntaf.

**Beth oedd eich argraffiadau cyntaf o Aberystwyth?**
Fyddwch chi ddim yn synnu i glywed ei bod yn glawio. Camais oddi ar y trên gyda chês ar ddiwrnod llwyd, gwlyb. Hanner ffordd i fyny Rhiw Penglais fe drois i edrych ar y bae - a sylweddoli mor rhyfeddol oedd lleoliad y brifysgol. Argraffiadau cadarnhaol iawn o'r dechrau, ar wahân i'r tywydd!

**Sut oeddech chi'n treulio eich amser yn Aberystwyth pan nad oeddech chi'n gweithio ar eich gradd?**
Roeddwn i'n gyrru i Gaerdydd at y Llynges Frenhinol Wrth Gefn unwaith yr wythnos. Roeddwn ar fwrsariaeth gan y Llynges felly roedd gen i rwymedigaeth - ac awydd - i dreulio amser gyda nhw. Roeddwn i'n aelod o dîm Karate y Brifysgol - a buan iawn oeddwn i'n gleisiau i gyd. Treulio amser yn hel tafarnau a chlybiau gyda ffrindiau, rhedeg yng nghefn gwlad... O, a rhywfaint o waith academaidd hefyd!

**Sut lansioch chi eich gyrfa?**
Graddiais yn haf 1985 - ac i ffwrdd â fi yn syth i Goleg y Llynges Frenhinol yn Dartmouth. Roedd y Rhyfel Oer yn ei anterth, ac ar ôl hyfforddi, ymunais â'r llongau tanfor a threulio'r blynyddoedd nesaf yn chwarae wic-wiw gyda'r hyn oedd ar y pryd yn llongau tanfor Sofietaidd. Yna yn 1989 cwympodd Wal Berlin - a dyna ddiwedd fy ngyrfa gyda'r llongau tanfor. Doedd gen i ddim diddordeb treulio blynyddoedd yr heddwch o dan y dŵr.

Ymgeisiais i nifer o ysgolion busnes, gan gynnwys Harvard. Dywedodd rhai "does gennych chi ddim profiad busnes, dydych chi ddim yn perthyn yma" ond roedd Harvard i'r gwrthwyneb yn llwyr. Mae'n debyg fod ganddyn nhw hanes hir o dderbyn pobl filwrol a'u helpu i bontio i'w gyrfa newydd. Er syndod i fi, ymhen chwe mis i adael y Llynges, roeddwn i yn Boston yn dechrau ar gwrs MBA 2 flynedd hynod o ddwys.

Ar ôl graddio bûm i'n gweithio am 8 mlynedd mewn rôl arweiniol gyda Procter and Gamble ac roedd yn brofiad gwych. Yno fe gefais i hyfforddiant busnes trylwyr, gan adeiladu ar yr hyfforddiant theori yn Harvard. Am y ddwy flynedd olaf roeddwn i yn eu pencadlys byd-eang yn Cincinnati, Ohio.







Cyfweliad gan
John Gilbey
(gilbey@bcs.org.uk)
@John_Gilbey







Yna, yn 2000, gadawodd pawb i fynd i Arfordir y Gorllewin - dyma'r bŵm "Dot Com". Yn sydyn roedd Facebook ac Ebay a'r lleill i gyd yn recriwtio'n brysur a chymeron nhw nifer fawr o bobl orau P&G.

Cefais alwad un diwrnod gan Jeff Bezos yn Amazon - oedd gwmni bach o hyd - yn gofyn i fi ymuno â nhw. I wneud beth? "Does gen i ddim syniad. Mae'r cwmni'n ei ailddyfeisio ei hun bob wythnos ac mae angen talentau arnon ni. Rydyn ni'n tyfu'n gyflym iawn. Jest dere, ac fe gei di goblyn o brofiad!" Felly i ffwrdd â ni i Seattle - lle gwnes i 5 swydd wahanol i Amazon dros y 2 neu 3 blynedd nesaf.

Roedden ni wedi bod i ffwrdd ers 5 mlynedd bellach, pan gysylltodd Vodafone a chynnig rôl Prif Swyddog Marchnata i fi yn ôl yn y DU. Roedd ffonau ar fin dod yn "dechnoleg" - roedd 3G ar y ffordd, ac roedden ni'n dechrau galw ffonau'n "rhyngrwyd newydd" - ond doedd neb yn gwybod eto beth oedd hynny'n ei olygu. Roeddwn i gyda Vodafone am 4 blynedd, yna 4 gyda Tesco Mobile, ac wedyn dechreuais weithio fel Prif Swyddog Gweithredol - yn fwyaf diweddar gyda Grŵp Saga.

Rwyf i wrth fy modd bod yn Brif Swyddog Gweithredol - rwyf i wir wedi mwynhau'r dwsin o flynyddoedd yn rhedeg gwahanol fusnesau, a'r amrywiaeth sydd wedi dod gyda hynny. Rwyf i wedi mynd yn fwriadol at fusnesau gwirioneddol dda sydd heb ddeffro i'r byd digidol eto, a gyrru eu taith ddigido.

**Beth nesaf?**
Rwyf i o'r farn gadarn mai dim ond hanner ffordd drwy'r daith wyf i. Mae cymaint o bethau rwyf i am eu gwneud. Rwyf i am roi mwy yn ôl i'r gymdeithas. Rwy'n gwneud eithaf tipyn o waith gyda'r Llywodraeth, yn bennaf yn y parth morol, ac yn treulio mwy o amser gyda dwy elusen y Llynges Frenhinol. Rwyf i'n dal i ddysgu, rwyf i newydd gwblhau cwrs hanes yng Nghaergrawnt, ac am i hwnnw arwain at eu cwrs Meistr dwy flynedd. Mae dysgu mor foddhaus - rwyf i wedi hoffi dysgu drwy gydol fy mywyd - a nawr mae gen i'r amser a'r egni i'w wneud unwaith eto.

Mae teulu'n bwysig i fi. Priododd Wendy a fi ym mis Ebrill 1989, pan oeddwn yn Is-gapten yn gwasanaethu ar y llong danfor HMS Conqueror. Mae gennym ni bedwar o feibion, ac rwy'n gwylio gyda diddordeb i weld beth ddaw i'w rhan nhw, a sut y byddan nhw'n mynd ati i'w wneud - ac rwyf i am fod yna i gynnig cyngor, os ydyn nhw'n gofyn amdano.

# Proffiliau Cyn-fyfyrwyr

Fel Prifysgol, rydym yn hynod falch o'n graddedigion. Mae llawer yn mynd ymlaen i gael llwyddiant mawr yn eu gyrfaoedd, yn byw ym mhob cwr o'r byd ac yn gweithio ym mhob diwydiant y gallwch chi ei ddychmygu!

Dyma straeon rhai o'n cyn-fyfyrwyr



**Thomas Dockerill** (BA Llenyddiaeth Saesneg 2015)

Ar hyn o bryd mae Tom yn gweithio fel Dadansoddwr Mewnwelediad Data ar gyfer Virgin Media O2. Ar ôl dechrau gweithio mewn rolau strategaeth mewn Addysg Bellach, aeth ymlaen i'r sector trafnidiaeth ac ailddarganfod angerdd am ddata, a arweiniodd at rôl uwch ddatblygwr mewn prifysgol - a bellach dadansoddi data. Mae Tom wedi darganfod y gall ei radd mewn Llenyddiaeth Saesneg fod yn addas ar gyfer llawer o yrfaoedd.

"Fe wnaeth astudio Saesneg yn Aberystwyth ffurfio pwy ydw i heddiw, gyda'r ffordd o fyw a'r tiwtoriaid gwych. Gallaf nawr ddweud stori gyda data - mae'n hoffter rhyfedd ond rwyf wrth fy modd!"



## Alexandra El Dbeissy

(MA Gwleidyddiaeth Ryngwladol 2019)

Ar hyn o bryd mae Alexandra yn gweithio fel Swyddog Materion Consylaidd yn Swyddfa Conswl Panama yn Nubai, yr Emiradau Arabaidd Unedig. Mae ei rôl yn cynnwys materion diplomyddol a chonsylaidd, megis cytundebau dwyochrog rhwng Panama a'r Emiradau Arabaidd Unedig, gweithredu fel cyswllt rhwng y Gonswliaeth a Gweinyddiaeth Materion Tramor a Chydweithrediad Rhyngwladol yr Emiradau Arabaidd Unedig, a drafftio nodiadau swyddogol wedi'u cyfeirio at sefydliadau llywodraethol a diplomyddion.

"Mae fy ngradd Meistr wedi fy helpu i ddatblygu meddylfryd dadansoddol i werthuso materion rhyngwladol o ongl wleidyddol, ddiwylliannol a chymdeithasol. Fe wnaeth fy ngalluogi i gael gwybodaeth am y polisïau allweddol y mae gwledydd yn eu rhoi ar waith i hybu eu heconomïau a'u safle fel cynrychiolwyr y Wladwriaeth yn y system ryngwladol."

Os hoffech chi rannu'ch profiadau ers gadael Aberystwyth, cysylltwch â ni ar alumni@aber.ac.uk

## Yugo Sato



(BSc Biocemeg 2018)

Derbyniodd Yugo 'Gronfa Ysgoloriaeth Peter Hancock' yn 2017 ac ar hyn o bryd mae yn ei flwyddyn olaf yn astudio ar gyfer PhD mewn Trin Dŵr Gwastraff Electrocemegol ym Mhrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Hong Kong. Mae hefyd yn brysur yn gweithio ar sawl cyhoeddiad.

"Fe wnes i fwynhau fy amser yn Aberystwyth yn fawr ac fe wnes i elwa'n benodol o'r ysgoloriaeth, yn arbennig felly y cyngor a'r arweiniad gan fentor a oedd yn gyn-fyfyriwr o Aber. Rydw i mewn cysylltiad â'r mentor o hyd"

## Iwan Griffiths

(BA Drama a Hanes Cymru 2004)

Mae Iwan yn gweithio fel gohebydd a chyflwynydd i BBC Cymru, gan weithio'n bennaf i S4C ar eu rhaglen 'Newyddion'.

Yn ystod ei yrfa yn y cyfryngau sydd wedi ymestyn dros bymtheng mlynedd, mae wedi cyflwyno'r prif raglenni o'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd.



Fel gohebydd, mae wedi teithio'n rheolaidd ac wedi cael y fraint o weithio yn y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd hefyd yn rhan o'r tîm a fu'n gohebu yn ystod Pencampwriaeth Bêl-droed Ewro 2016 a 2020.

"Mae gen i atgofion melys iawn o fy nghyfnod yn Aberystwyth. Cefais sylfaen addysgol gadarn, ond yn anad dim, mae'r awyrgylch yn y Brifysgol a'r dref yn un sy'n eich mowldio chi fel unigolyn. Yn barod i wynebu heriau bywyd."

Gwobr CaisDyfeisio 2021

## Myfyriwr mentergar yn ennill £13,000 o fuddsoddiad yn ei syniad busnes

Syniad gan Karl Swanepoel, sy'n fyfyriwr Cyfrifiadureg ar ei flwyddyn olaf, aeth â bryd y beirniaid eleni yng nghystadleuaeth CaisDyfeisio Prifysgol Aberystwyth, gan ennill buddsoddiad gwerth £13,000.

Cynhelir y gystadleuaeth CaisDyfeisio bob blwyddyn ac fe'i noddir gan gyfraniadau gan gyn-fyfyrwyr drwy Gronfa Aber, ac fe'i trefnir gan Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol. Eleni daeth cystadleuwyr y rownd derfynol o ystod eang o ddisgyblaethau academaidd, gan gynnig syniadau a amrywiodd o wellt yfed a wnaed o wair, i baent inswleiddio thermol.



Karl Swanepoel

Syniad busnes buddugol Karl yw gwefan/ap o'r enw *Revolancer*, a fydd yn paru gweithwyr medrus sy'n gweithio ar eu liwt eu hun â busnesau bach newydd sy'n chwilio am wasanaethau digidol megis dylunio graffeg, ysgrifennu, rhaglennu a'r cyfryngau.

Ar y cyd â chael £10,000 i fuddsoddi mewn cyfarpar, adnoddau neu wasanaethau proffesiynol er mwyn gwireddu ei syniad busnes, llwyddodd Karl hefyd i gipio gwobr ar wahân sy'n werth £3,000, a noddir gan Engineers in Business, ar gyfer cynnig buddugol gan fyfyriwr neu dimau sy'n astudio Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg.

Hefyd, yn rhan arall o'r wobr i'r gystadleuaeth eleni, fe gynigiwyd lle mewn swyddfa am flwyddyn, ynghyd â mentora a hyfforddiant i baratoi at fuddsoddiad, a ddarperir gan ArloesiAber, a'r cyfan wedi'i gynnig am y cais gorau o sectorau'r bio-wyddorau, y gwyddorau bywyd ac amaethyddiaeth. Dyfarnwyd y wobr hon i'r cwmni te moesegol arloesol, Eisa Tea Co, sef syniad busnes y fyfyrwraig Seicoleg, Emily Knipe ac Amy Aed, a raddiodd mewn Saesneg.

Dyfarnwyd y wobr derfynol, sef gwobr GRAaIN, werth £500, ar gyfer Busnes Cefn Gwlad, i wefan ac ap sy'n helpu beicwyr ar daith i ddod o hyd i lety addas. Dyma syniad busnes y myfyriwr Busnes Thomas Lancaster ac Emily Stratten, a raddiodd mewn Daearyddiaeth. Mae Ride Dyfi (www.ridedyfi.co.uk) yn dod o hyd i lety ym mro Dyfi ac Eryri sy'n addas yn benodol i feicwyr mynydd, gyda'r nod o ddatblygu i fod yn brif gyrchfan i feicwyr mynydd sy'n beicio yn yr ardal ac yn chwilio am wybodaeth amdani.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen y Brifysgol o ddigwyddiadau sy'n cefnogi gweithgarwch menter busnes ymhlith ei myfyrwyr, ei graddedigion a'i staff, ewch i dudalen we AberPreneurs.

# Ariannu dyfodol mwy disglair

Mae eich cefnogaeth ddyngarol yn cael effaith amhrisiadwy ar fyfyrwyr Aber a'r Brifysgol - gan ariannu dyfodol mwy disglair i bawb yn Aberystwyth.

Chwaraeodd dyngarwch ran bwysig wrth greu'r Brifysgol. Wrth i ni edrych ymlaen at ein pen-blwydd yn 150 yn 2022-23 a thu hwnt, mae cefnogaeth hael ein cyn-fyfyrwyr a'n cymuned o gefnogwyr yr un mor hanfodol ag erioed.

Yn ystod blwyddyn mor heriol, parhaodd myfyrwyr unigol, clybiau a chymdeithasau i dderbyn cefnogaeth ar draws meysydd Caledi Myfyrwyr, Lles a Chyfleoedd - gyda'r rhai mewn angen yn elwa o gymorth ariannol yn ddi-oed, cymorth iechyd a lles, a chyfleoedd sy'n newid bywyd drwy ysgoloriaethau a bwrsariaethau newydd. Diolch i chi.

Rydych chi wedi dilyn ôl troed ein sefydlwyr wrth godi arian hanfodol ar gyfer Apêl yr Hen Goleg. Rydym wedi dod yn bell gyda'ch cefnogaeth ac ni allem fod wedi cyrraedd mor bell â hyn heboch chi. Wrth ichi weld yr Hen Goleg yn trawsnewid dros y flwyddyn neu ddwy nesaf, gobeithio y byddwch chi'n teimlo eich bod wedi'ch ysbrydoli i gefnogi adnewyddiad yr Hen Goleg ymhellach yn 2023.

Diolch i'r holl roddwyr ar ein Rhestr o Roddwyr ar gyfer 2020-21 ac i'r rhai sydd wedi rhoi yn ddienw: www.aber.ac.uk/thankyou



Hayley Goddard
Swyddog Rhoddion Unigol

# Ysbrydoli newid



## Anrhydeddu 'Mads' yn yr Hen Goleg

Mae'r Cantorion Madrigal Elisabethaidd yn un o gymdeithasau mwyaf hirhoedlog y Brifysgol. Gyda diolch i gefnogwyr cynnar, mae cyn-aelodau a chyn-fyfyrwyr ledled y byd bellach yn dod at ei gilydd i anrhydeddu'r Gymdeithas hon yn yr Hen Goleg a fydd yn cael ei drawsnewid yn fuan. Gallwch ddysgu mwy am y prosiect arbennig hwn, gan gynnwys sut i gefnogi trwy e-bostio alumni@aber.ac.uk

## Gwobr newydd i fyfyrwyr milfeddygol

Mae haelioni Tom Jones, Cyn-fyfyriwr a Chymrawd er Anrhydedd (Hanes a Hanes Cymru, 1970) wedi sefydlu'r wobr flynyddol gyntaf i fyfyrwyr yn yr Ysgol Gwyddor Filfeddygol. Bydd ei rodd yn cydnabod ac yn gwobrwyo *"myfyriwr sy'n esiampl i fyfyrwyr eraill o ran astudiaethau, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cefnogaeth i gyd-fyfyrwyr a chyfrannu at y proffesiwn a'r Ysgol Gwyddor Filfeddygol".*

Os hoffech chi gefnogi'r Ysgol gyda gwobr arbennig, bwrsariaeth neu ysgoloriaeth, cysylltwch â ni: alumni@aber.ac.uk





## Hyfforddi i lwyddo

Mae eich cefnogaeth yn galluogi cannoedd o fyfyrwyr bob blwyddyn i ennill cymwysterau ac achrediadau mewn chwaraeon a rhaglenni hyfforddi seiliedig ar weithgareddau. Mae'r bwrsariaethau hyn yn helpu hyfforddwyr, chwaraewyr ac aelodau Clybiau a Chymdeithasau Myfyrwyr i ddatblygu tuag at yr arferion gorau cenedlaethol a rhyngwladol, gan hybu sgiliau cyflogadwyedd a datblygu hunanhyder.

# Dyngarwch 2020-21 mewn rhifau

Rhoddwyd
**£560,414**
gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr

**£244,051** gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

**66** sy'n bwriadu gadael rhodd yn eu hewyllys

**957** o roddwyr unigol

**534** o roddwyr sy'n rhoi'n rheolaidd

**BLAENORIAETHAU CODI ARIAN**

**£390,194**
Apêl yr Hen Goleg

**£329,825**
Cymorth i Fyfyrwyr (Cronfa Aber)

**£84,137**
Ymchwil a Datblygiad Academaidd

**49**
aelod cyfredol yn rhoi ar lefel Cylch Cyfrannu'r Is-Ganghellor

## Cefnogi'r Brifysgol

Ni fyddai llwyddiant Aber yn bosibl heb eich cefnogaeth chi. Diolch o galon i chi gan holl fyfyrwyr a staff Aber.

Mae eich rhodd chi, ynghyd â rhoddion eraill gan gyn-fyfyrwyr a chefnogwyr ledled y byd, yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i fyfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol ar draws ein tri maes blaenoriaeth:

**Cymorth i Fyfyrwyr (Cronfa Aber)**
**Apêl yr Hen Goleg**
**Ymchwil a Datblygiadau Academaidd**

Gallwch wneud gwahaniaeth trwy roi rhodd sengl neu rodd reolaidd:

- Ar-lein ar www.aber.ac.uk/give
- Postio ffurflen gyfraniad
- Ar gyfer cefnogwyr Rhyngwladol, gallwch roi ar y cyd â'n partneriaid SWIFT neu Sefydliad Ysgolion a Phrifysgolion Prydain (BSUF)

Os hoffech drafod eich rhodd yn fwy manwl, cysylltwch â Hayley Goddard yn alumni@aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 621568. Diolch.

## Effaith cymynroddion

Mae rhodd yn eich ewyllys yn ffordd arbennig o ddathlu'ch bywyd ac yn ffordd unigryw o gofio Prifysgol Aberystwyth.

Ni allwn orbrisio effaith rhoi cymynrodd. Mae rhoddion o bob maint, yn y gorffennol a'r presennol, yn helpu i gefnogi a chyfoethogi bywydau myfyrwyr y dyfodol, hyrwyddo addysgu a dysgu, ac mae'n helpu Prifysgol Aberystwyth i aros ar flaen y gad ym maes ymchwil arloesol.

Mae gwneud eich ewyllys yn benderfyniad personol ac rydym yn gwerthfawrogi arwyddocâd gofalu am eich teulu a'ch anwyliaid. Efallai y teimlwch ei bod yn briodol ystyried rhoi rhodd i'r Brifysgol a byddem yn gwerthfawrogi cyfle i weithio gyda chi i sicrhau bod eich rhodd yn cael ei defnyddio yn union fel y bwriadwyd.

Am drafodaeth neu i gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Hayley Goddard ar alumni@aber.ac.uk neu 01970 62 2083

# Mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ym Mhrifysgol Aberystwyth


*Llun: Scott Waby*

Ers degawdau, mae astudio'r amgylchedd ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wedi bod yn rhan o genadwri Prifysgol Aberystwyth. O ddiogelu cyflenwadau bwyd ac effeithiau newid byd-eang ar fioamrywiaeth, i astudio rhewlifau'n toddi, llifogydd a sychder, bu ein hacademyddion yn gwneud ymchwil er mwyn cynorthwyo i ddatblygu atebion i'r argyfyngau pennaf sy'n wynebu ein planed.

Ym mis Hydref 2021, i gyd-daro â Chynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26) yr hydref hwn, cynhaliodd y Brifysgol wythnos o Ŵyl Ymchwil yn canolbwyntio ar y newid yn yr hinsawdd. Ar gyfer y gynhadledd gyntaf hon, daeth academyddion - o bob rhan o'r Brifysgol a thu hwnt - yn ogystal â gwleidyddion, llunwyr polisi, ac aelodau o'n cymuned leol ynghyd i ddadlau a thrafod. Wrth i ni weithio tuag at fod yn sefydliad sy'n niwtral o ran carbon erbyn 2030, rydym wedi adeiladu ymhellach ar ein proffiad ymchwil y llynedd trwy lansio cyfres arloesol o gynlluniau gradd israddedig newydd - sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfuno'u prif bwnc gradd â dealltwriaeth feirniadol o effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar eu maes astudio.

Mae'r rhaglenni newid hinsawdd rhyngddisgyblaethol a ddatblygwyd yn Aberystwyth yn rhai arbennig ac unigryw. Seilir pob cynllun ar graidd o fodiwlau newid hinsawdd, wedi'u cyfuno â phrif ddisgyblaeth arall yn cynnwys Bioleg, Busnes, Economeg, Astudiaethau Saesneg, neu Gysylltiadau Rhyngwladol. Bydd y fframwaith unigryw hwn yn golygu y gall myfyrwyr gyfoethogi eu dysgu trwyadl yn eu pwnc penodol drwy ychwanegu'r sgiliau a'r nodweddion sydd eu hangen i ddadansoddi a chreu atebion i'r argyfwng hinsawdd presennol.

Meddai Mike Christie, Athro Economeg Amgylcheddol ac Ecolegol a Chyfarwyddwr Ymchwil yn yr Ysgol Fusnes: "Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes hir o ddysgu ac ymchwilio ym maes newid hinsawdd. Ers rhai blynyddoedd, rydym wedi dod â'r arbenigedd hwn ynghyd i ddatblygu cyfres o raglenni israddedig yn y maes. Agwedd arall gyffrous ar y rhaglenni newydd hyn yw'r ffaith eu bod yn manteisio ar amrywiaeth o safbwyntiau disgyblaethol er mwyn rhoi i fyfyrwyr sylfaen ryngddisgyblaethol gron a chryno a fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth iddynt o achosion y newid yn yr hinsawdd, yn ogystal ag archwilio datrysiadau newydd i'r argyfwng hinsawdd."

Rhoddir cyfle i bob carfan o fyfyrwyr weithio mewn cymunedau dysgu rhyngddisgyblaethol oherwydd bod gan yr holl raglenni rai modiwlau craidd cyffredin sydd newydd eu datblygu, yn cynnwys er enghraifft, Climate and Climate Change sy'n canolbwyntio ar y wyddoniaeth sy'n sylfaen i astudio hinsawdd a'r newid yn yr hinsawdd, a The Governance of Climate Change: Modiwl Efelychu sy'n rhoi profiad ymarferol a chadarn ei sail o'r prosesau gwneud penderfyniadau, y trafod a'r wleidyddiaeth sy'n amgylchynu dulliau cyfredol o reoli'r hinsawdd, yn seiliedig ar sefyllfaoedd penodol ynglŷn â'r newid hinsawdd sy'n gofyn am ymateb cydlynol.

Yn ôl Hector Duncan, a oedd yn un o'r garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y radd Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid yn yr Hinsawdd yn 2020: "Mae'n wirioneddol werthfawr i allu canolbwyntio ar y newid hinsawdd yn rhan o fy nghwrs ac mae hyn wedi fy nghynorthwyo i ddeall y newid hinsawdd yn well trwy safbwyntiau amlddisgyblaethol. Fy hoff agwedd ar y cynllun gradd yw'r ffaith ei fod yn dwyn ynghyd fyfyrwyr o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau gwahanol i astudio un o heriau mwyaf ein hoes ac yn ein rhoi mewn sefyllfa i astudio, cydweithio a rhannu syniadau gyda'n gilydd er mwyn ceisio cyfrannu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu creu gan y newid hinsawdd."

Meddai Adriana Cahill, a ddechreuodd ar ei chwrs trwy Ysgol Fusnes Aberystwyth ym mis Medi 2021: "Y dyddiau hyn, mae'n hollbwysig cael dealltwriaeth o'r newid hinsawdd mewn unrhyw yrfa y bwriadwch fynd iddi. Dewisais y cynllun gradd Busnes a Newid Hinsawdd i fod yn ffordd o adeiladu fy nealltwriaeth o'r berthynas rhwng busnes a newid hinsawdd. Rhaid i gwmnïau weld a deall sut mae eu busnes yn effeithio ar yr amgylchedd. Gyda chynllun fel hwn, rwy'n gobeithio gallu dysgu sut i redeg busnes yn gyfrifol a chreu dulliau blaengar i newid ein hymddygiad busnes, er mwyn osgoi gadael byd wedi'i ddifrodi i genedlaethau'r dyfodol."

Dysgir y cynlluniau gradd newydd hyn gan academyddion sy'n gwneud ymchwil i gynorthwyo i ddatrys her newid hinsawdd ledled y byd, ac maent yn ategu ac yn ehangu darpariaeth hirsefydlog y Brifysgol ym maes newid amgylcheddol yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig gan gynnwys daearyddiaeth ddynol a ffisegol yn ogystal â gwyddor amgylcheddol, gwyddor daear amgylcheddol a chymdeithaseg, lle mae newid hinsawdd yn thema sylfaenol.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i geisio canfod ateb i'r newid yn yr hinsawdd yn ymestyn y tu hwnt i'n haddysgu a'n hymchwil. Fel llawer o sefydliadau eraill ymhob rhan o'r byd, gwnaethom ddatganiad argyfwng hinsawdd ym mis Tachwedd 2019 a'r flwyddyn ganlynol, cymeradwyodd ein Cyngor addewid gwirfoddol i'n gwneud yn sefydliad niwtral o ran carbon erbyn 2030, a thros y 12 mis diwethaf, mae'r Brifysgol wedi buddsoddi dros £3 miliwn mewn amrywiaeth o brosiectau i gynyddu effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon.

## Rhaglenni rhyngddisgyblaethol newid hinsawdd a gynigir ym Mhrifysgol Aberystwyth

**Bioleg a Newid yn yr Hinsawdd**: yn edrych ar y prosesau sydd wrth wraidd newid yn yr hinsawdd, ac effaith newid hinsawdd ar fioamrywiaeth, ar lefel rhywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.

**Busnes a Newid yn yr Hinsawdd**: yn paratoi arweinwyr busnes y dyfodol i fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd trwy ddatblygu strategaethau ac arferion ystyrlon o ran cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, trwy ddysgu gwybodaeth am y wyddoniaeth berthnasol ac annog y sgiliau ar gyfer rhedeg busnes cynaliadwy llwyddiannus.

**Economeg a Newid yn yr Hinsawdd**: cyfuno gwybodaeth am y wyddoniaeth sydd wrth wraidd newid yn yr hinsawdd â nifer o offer economaidd er mwyn deall a datblygu polisïau a chymhellion a fydd yn helpu i symud tuag at economi niwtral o ran carbon.

**Astudiaethau Saesneg a Newid yn yr Hinsawdd**: yn cyfuno gwybodaeth am wyddoniaeth hinsawdd â dealltwriaeth feirniadol o'r trafodaethau sy'n amgylchynu'r pwnc, yn archwilio'r ffordd y mae newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol wedi'u disgrifio mewn llenyddiaeth o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw, ac yn rhoi sail i gyfathrebu ynglŷn â'r newid hinsawdd a strategaethau lleddfu'r newid yn y dyfodol.

**Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid yn yr Hinsawdd**: gwleidyddiaeth ryngwladol yw'r allwedd i ddeall y cymhlethdod hwn a herio'r argyfwng byd-eang hwn. Mae'r cynllun yn dadansoddi achosion a chanlyniadau newid hinsawdd a dirywiad amgylcheddol, yn arbennig o safbwynt gwleidyddiaeth ryngwladol.

**I gael rhagor o wybodaeth am Ŵyl Ymchwil y Brifysgol, ewch i wordpress.aber.ac.uk/research-festival** *neu os hoffech drafod sut y gallech chi gefnogi'r amcanion ymchwil a sefydliadol hyn trwy eich gwybodaeth a'ch rhwydweithiau, cysylltwch ag alumni@aber.ac.uk.*

# ‘Ni all cyfundrefn Addysg aros yn yr unfan’



Dyma Dr Andrew James Davies, Pennaeth yr Ysgol Addysg, yn myfyrio ar rai datblygiadau diweddar.




Yn y 1960au, ysgrifennodd yr Athro Jac. L Williams, addysgwr ac ysgolhaig enwog, a Deon yr Ysgol Addysg yma yn Aberystwyth: ‘Ni all cyfundrefn Addysg effeithiol, yn fwy na’r gymdeithas y mae’n ceisio ei gwasanaethu, aros yn yr unfan. [...] y mae’n rhwym o dyfu a newid yn ôl gofynion ei hamgylchedd mewn amser a lle.’

Tybed beth fyddai barn addysgwyr o’r un genhedlaeth â’r Athro Williams ynglŷn â sefyllfa addysg heddiw? Gwelwyd newidiadau mawrion dros y ddau ddegawd diwethaf: datganoli a chreu system unigryw i Gymru; dylanwad cymariaethau rhyngwladol yn gyrru gwelliannau drwy’r system; cychwyn Cwricwlwm Newydd i Gymru a fydd yn sicrhau annibyniaeth newydd i athrawon; ac, wrth gwrs, yr heriau digynsail a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19, sydd wedi arwain at yr angen am ddulliau dysgu ac addysgu newydd.

Wrth i’r system addysg ymateb i’r heriau hyn a lliaws o heriau eraill, galwyd hefyd ar addysgwyr athrawon ac ymchwilwyr ym maes addysg i chwarae’u rhan. Yn hyn o beth, mae’r cyfrifoldeb dinesig i gynhyrchu athrawon newydd o safon, i greu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon presennol ac i gyfrannu at y ddealltwriaeth ehangach am bolisi ac arferion addysgol drwy ein hagenda ymchwil yn bethau y mae’r Ysgol Addysg wedi’u deall yn iawn ers y cychwyn cyntaf. Gallwn fod yn falch iawn o lawer o ddatblygiadau diweddar sy’n tystio i’r ffaith bod yr Ysgol Addysg yn parhau â’r traddodiad hwn.

Ar ôl i’r ddarpariaeth TAR gael ei hail-achredu yn 2019, mae Partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon Aberystwyth wedi arloesi â dull newydd o sicrhau bod pob un o’n hathrawon dan hyfforddiant yn cael profiad holistaidd, a hynny mewn lleoliadau cynradd ac uwchradd, ni waeth be fo’u cyfnod na’u harbenigedd pynciol. Mae ‘Dysgu y Tu Hwnt i Ffiniau’ yn llawer mwy na slogan i’r bartneriaeth - mae’n ethos sy’n sicrhau y gall athrawon newydd weithio y tu hwnt i ffiniau pynciol, fel y bydd y cwricwlwm newydd yn ei fynnu; ac y gallant weithio ar draws y cyfnodau cynradd ac uwchradd, fel y bydd hefyd yn ofynnol o ganlyniad i’r cydweithredu cynyddol rhwng ysgolion a chreu ysgolion pob oed. Rydym yn ffodus iawn y gallwn dynnu ar bartneriaeth glos o ysgolion yn ein rhanbarth sy’n rhan mor allweddol o’r gwaith parhaus i ddatblygu’r rhaglen addysg gychwynnol i athrawon, ac o’r modd y mae’n cael ei darparu a’i llywodraethu.

Aethom ati hefyd yn 2019 i ddilysu cynllun newydd i israddedigion er mwyn ymateb i’r alwad am ymarferwyr medrus yn y blynyddoedd cynnar: *BA (Anrhydedd) Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd y Blynyddoedd Cynnar*. Ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd addysg y blynyddoedd cynnar - mae astudiaethau dirifedi yn dangos bod buddsoddi mewn addysg gynnar yn talu ar ei ganfed o ran y canlyniadau i blant mewn blynyddoedd i ddod. Yn rhan o’n cynllun gradd newydd, sydd wedi’i achredu gan Ofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn cynnig profiadau unigryw i fyfyrwyr ar leoliadau a gynlluniwyd i greu ymarferwyr rhagorol yn y blynyddoedd cynnar sy’n gallu cefnogi plant â’u dysgu a’u lles.

Mae’r Ysgol Addysg hefyd wedi bod ynghlwm wrth lawer o brosiectau ymchwil allweddol sydd wedi ymateb yn uniongyrchol i’r heriau a ddaeth i’n rhan yn sgil pandemig COVID-19. Yn ddiweddar, mae timau o ymchwilwyr yn yr Ysgol wedi bod yn ystyried effaith y pandemig ar sut mae ysgolion yn mabwysiadu strategaethau dysgu o bell a dysgu cyfunol; effaith y pandemig ar addysg disgyblion o garfannau difreintiedig; ac effaith y pandemig ar ddisgyblion mewn addysg Gymraeg neu ddwyieithog, nad ydynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Rydym hefyd wedi ystyried safbwyntiau dysgwyr o ran y trefniadau asesu a wnaed yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020-21 ar gyfer cymwysterau megis TGAU a Safon Uwch. Gall prosiectau fel hyn gael effaith ar bolisi ac ymarfer addysgol, ac maent yn driw i’n cenhadaeth ddinesig.

> “*Gwelwyd newidiadau mawrion i’r sefyllfa addysg dros y ddau ddegawd diwethaf*”

Yn ddiweddar iawn, buom yn rhan o waith datblygu a chyflwyno’r radd MA Addysg (Cymru) genedlaethol. Mae hon yn rhaglen feistr i athrawon sy’n para tair blynedd. Fe’i datblygwyd gan gynghrair o Brifysgolion ar gais Llywodraeth Cymru, a bu arbenigwyr rhyngwladol yn cyfrannu at y gwaith ac yn darparu cyngor. Rydym yn falch o fod wedi chwarae rhan yn natblygiad y cynllun hwn, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu ein carfan gyntaf o athrawon yn 2021-22. Cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i gymryd rhan yn y rhaglen. Amcan y radd Meistr yw rhoi cyfleoedd i athrawon i ddatblygu’u hymarfer ac i ymdrin â thystiolaeth o ansawdd a’r mewnwelediadau sy’n deillio o’r ymchwil diweddaraf. Bydd gan athrawon gyfleoedd i ddatblygu’u haddysgeg, eu harweinyddiaeth a’u hymarfer mewn meysydd megis cynhwysiant, tegwch a llesiant. Byddant yn gwneud hynny’n rhan o gymuned o ymarferwyr. Hefyd, gan mai cynllun cydweithredol yw hwn, byddant yn gallu manteisio ar arbenigedd o bob cwr o Gymru ac yn rhyngwladol.

Drwy’r datblygiadau hyn, mae’r Ysgol Addysg yn parhau i wasanaethu ein cymuned a’r system addysg, ac mae’n ymateb i heriau unigryw’r byd sydd ohoni. Os ydych am ddysgu rhagor am ein gwaith, mae croeso mawr ichi gysylltu â ni: add-ed@aber.ac.uk

# Penodiadau

**Yr Athro Mererid Hopwood**
Athro y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

**Yr Athro Charles Musselwhite**
Cadair mewn Seicoleg

**Helen Jones**
Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi

**Iwan Teifion Davies**
Cyfarwyddwr Cerdd

**Ian Munton**
Pennaeth Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd

# Cyflawniadau

## Myfyrwyr

Dyfarnwyd **Alex Newnes,** myfyriwr PhD IBERS yn un o enillwyr Gwobrau Arloeswr Ifanc eleni. Trefnwyd y gwobrwyo gan Innovate UK ac Ymddiriedolaeth y Tywysog ac enilliodd Alex ar sail ei ymchwil i ddefnyddio gwymon i gynhyrchu ffilm bioblastig.

Cafodd **Mark Dewes**, sy'n gweithio tuag at ennill gradd meistr mewn cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac effeithlon yn IBERS trwy ddysgu o bell, ei enwi'n Gynghorydd Tir Âr y Flwyddyn 2020 gan *Farmers Weekly*.

Cyflwynwyd Gwobr Myfyriwr Amaethyddiaeth Gorau yn IBERS, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, i **Osian Gwyn Jones**. Graddiodd Osian gyda BSc (Anrh) dosbarth cyntaf mewn Amaethyddiaeth eleni.

Dyfarnwyd **Isaac Langran** a raddiodd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 2021, yn un o enillwyr y categori Dadansoddwr Byd-eang Ifanc yng Ngwobrau'r Heddychwr Ifanc gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru am ei draethawd ynghylch proses heddwch Israel-Palestina.

Cyflwynwyd Gwobr Hyrwyddwr y Gymraeg (Myfyriwr) i **Rhian Williams** (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) yng Ngwobrau Gŵyl Dewi Aber.

Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr a enillodd wobrau yng Ngwobrau Staff a Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aberystwyth 2021: **Jake Christie** (AThFfTh) - Cynrychiolydd Academaidd y Flwyddyn, **Yuyao Wang** (Ysgol Fusnes Aberystwyth) - Athro Ôl-raddedig y Flwyddyn, **Cat Oliver** (IBERS) - Myfyriwr-fentor y Flwyddyn, **Tom Mumford** (Cyfrifiadureg) - Aelod Staff Myfyrwyr y Flwyddyn, **Adam Burlingham** (Y Gyfraith a Throseddeg) - Myfyriwr-wirfoddolwr y Flwyddyn, ac enillwyr y Wobr Categori Agored, **Beth Wright** (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) a **Joel Adams** (Cyfrifiadureg)

## Staff

Enillwyr Gwobrau Effaith Ymchwil Prifysgol Aberystwyth eleni oedd Dr Elizabeth New (Hanes a Hanes Cymru) a enillodd Wobr y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol am ei phrosiect CSI Canoloesol sy'n ymchwilio i gyfraniad seliau canoloesol at ymchwil wyddonol ac arferion treftadaeth; a Dr Rachel Rahman (Seicoleg) a enillodd wobr Wyddoniaeth y Gwobrau Effaith Ymchwil am ei gwaith ar ddefnyddio teleiechyd i gefnogi anghenion seicogymdeithasol cleifion gofal lliniarol a chanser.

Derbyniwyd **yr Athro Emeritws Patrick Sims-Williams** (Adran Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd) i Academi Frenhinol Iwerddon ym mis Mai 2021 am ragoriaeth academaidd a chyfraniad eithriadol i ymchwil ysgolheigaidd.

**Derbyniwyd yr Athro Neil Glasser** (Athro Daearyddiaeth Ffisegol a Dirprwy Is-Ganghellor, y Gyfadran Gwyddorau Daear a Bywyd) yn ffurfiol fel Cymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Dyfarnwyd Cymrodoriaeth Ryngwladol Cymru Greadigol Gŵyl y Gelli ar gyfer 2021-22 i'r **Athro Mererid Hopwood** (Adran Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd).

**Enillodd Dr Gwenllïan Rees**, Darlithydd mewn Gwyddor Filfeddygol (IBERS) Wobr Effaith Coleg Brenhinol y Milfeddygon am ei rhan ym mhrosiect Arwain Vet Cymru, rhaglen stiwardiaeth wrthficrobaidd genedlaethol gydweithredol i bob milfeddyg fferm yng Nghymru.

Enillodd **Alice Farnworth,** Cynorthwyydd Desg Gymorth TG yn yr Adran Gwasanaethau Gwybodaeth, Wobr Dysgwr y Flwyddyn, Cymraeg Gwaith, yn y Seremoni Wobrwyo Flynyddol i Ddysgwyr Cymraeg y Brifysgol.

Enillwyr Gwobrau Gŵyl Dewi Aber Awards 2020, sy'n anrhydeddu unigolion am eu cyfraniad i'r Gymraeg, oedd **Sarah Whitehead** (Dysgwr Eithriadol) (Staff), **Dafydd Rhys** a **Fiona Reynolds** (Hyrwyddo Cymraeg yn y Gweithle), a **Heledd Davies** (Astudiaeth Cyfrwng Cymraeg). Hefyd, cyflwynodd y panel dyfarnu Dystysgrif Cydnabyddiaeth Arbennig i aelodau staff canlynol y Brifysgol **Kate Wright**, **Alice Farnworth**, **Scott Tompsett**, **Jaya Mukhopadhyay**, **Jackie Sayce**, **Joe Smith** a **Rachel Rees** am eu hymrwymiad i'r Gymraeg.

Llongyfarchiadau i'r aelodau staff buddigol yng Ngwobrau Staff a Myfyrwyr Undeb Myfyrwyr Aberystwyth 2021: **Panna Karlinger** (Mathemateg a'r Ysgol Addysg) - Darlithydd y Flwyddyn, **Dr Susan Chapman** (Ysgol Addysg) - Tiwtor Personol y Flwyddyn, **Dr Simon Payne** (Seicoleg) - Goruchwyliwr y Flwyddyn, **Lorraine Spencer** (Cymorth i Fyfyrwyr a Gwasanaethau Gyrfaoedd) - Aelod Staff Ategol/Gwasanaeth y Flwyddyn. Llongyfarchiadau i'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol am ennill gwobr Adran y Flwyddyn eleni.

**Gwenallt Llwyd Ifan**, tiwtor hyfforddiant athrawon Cemeg a Bioleg yn yr Ysgol Addysg, a enillodd y Gadair yng Ngŵyl AmGen ddigidol yr Eisteddfod Genedlaethol yn Awst 2021.

## Cyn-fyfyrwyr

**Daniela Amiouny** (Biowyddor filfeddygol a cheffylau, 2020) oedd un o gyd-enillwyr Gwobr Traethawd Ymchwil Ceffylau y Flwyddyn 2020 BETA, am ei hastudiaeth o effeithiau dyfnder haen gwely a golau nos ar gwsg ceffylau a pherfformiad gwybyddol.

Mae **Steve Rawlison** (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, BSc 1973 / MSc 1975) wedi'i dderbyn yn Aelod Anrhydeddus o'r Gymdeithas Ddaearyddol, clod uchaf y Gymdeithas.

Mae **Lara Kenny** (Busnes a Rheolaeth gyda'r Almaeneg, 2013) wedi derbyn gwobr un seren Great Taste am ei busnes cacennau priodas, *Love from Lila*.

Mae **Mared Edwards** (Cymraeg, Drama a Theatr, 2021) wedi ei phenodi yn Llywydd Urdd Gobaith Cymru am y ddwy flynedd nesaf. Mared hefyd yw Swyddog Diwylliant Cymru ar hyn o bryd a Llywydd UMCA (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth).

Llwyddodd **Geeta Ramlall** (Ysgolor y Gymanwlad - Gradd Meistr mewn Astudiaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, 2016) i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cyn-fyfyrwyr Study UK y Cyngor Prydeinig 2021 ym Mauritius (Categori Effaith Gymdeithasol) - sefydlodd Geeta gorff anllywodraethol *'Book a Smile'* sy'n gweithio i gael gwared ar y rhwystrau i ddysgu darllen a llythrennedd ym Mauritius.

Penodwyd **Eirian Roberts** (Cymraeg, 1996) yn Gadeirydd Pwyllgor Ffederasiynau Sefydliad y Merched Cymru.

**Etholwyd Sarah Green** (Cysylltiadau Rhyngwladol, 2005) yn AS Democratiaid Rhyddfrydol dros Chesham ac Amersham yn isetholiad Mehefin 2021.

*Enillodd Happy Families,* nofel gyntaf **Julie Ma** (Drama 1991 / MA Drama 1997) gystadleuaeth Richard and Judy, *Search for a Bestseller* 2020.

**Lleucu Roberts** (Cymraeg, 1986), enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod AmGen ym mis Awst 2021.

**Marged Tudur** (Cymraeg, 2014) a enillodd y Wobr am Farddoniaeth Gymraeg yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2021 a gynhaliwyd gan Lenyddiaeth Cymru, am ei chasgliad cyntaf o farddoniaeth, *Mynd*, a ysgrifennwyd yn sgil marwolaeth ei brawd, Dafydd Tudur (y Gyfraith, 2009).

# Er Cof

Cofio'r rhai a fu farw rhwng Awst 2020 a Gorffennaf 2021.

**Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr*

## Cymrodyr

**Abas**, Tun Dr Mohamed Salleh bin (Y Gyfraith, 1954), bu farw Ionawr 2021
**Basini**, Mr Mario (Saesneg, 1964), bu farw Tachwedd 2020
**Dawes**, Mr John (Cemeg, 1962), bu farw Ebrill 2021
**Humphreys**, Mr Emyr, bu farw Medi 2020
**James**, Mrs Sian, bu farw Gorffennaf 2021
**Morgan**, Yr Arglwydd Elystan (Y Gyfraith 1953), bu farw Gorffennaf 2021*
**Morris**, Dr Jan, bu farw Tachwedd 2020
**Thomas**, Syr John, (cyn aelod o'r staff), bu farw Tachwedd 2020

## Staff

**Allen,** Mr Eric, bu farw Rhagfyr 2020
**Borsay,** Yr Athro Peter, bu farw Tachwedd 2020
**Brown**, Mr Geoffrey, bu farw Ebrill 2021
**Corfield**, Mr John, bu farw Awst 2020
**Davies,** Mr Alun Eirug, bu farw Awst 2019
**Davies**, Dr Morton (Mathemateg Gymhwysol, 1971), bu farw Tachwedd 2020
**Falla**, Dr David (Astroffiseg Ddamcaniaethol), bu farw Gorffennaf 2021
**Jones**, Ms Sallie, bu farw Ebrill 2021
**Keen**, Mr Michael, bu farw Mehefin 2021
**Lowe**, Mr Michael, bu farw Medi 2020
**Moseley QC,** Yr Athro Hywel, bu farw Mehefin 2020
**Slay**, Mrs Leontia, bu farw Chwefror 2021
**Spink**, Mr Miles, bu farw Mawrth 2021
**Thomas**, Yr Athro Emeritws Dennis (Economeg 1970), bu farw Mai 2021
**Wasdell**, Dr Marie, bu farw Gorffennaf 2021*

## Cyn-fyfyrwyr a Chefnogwyr

**Bennett Evans**, Mr David, bu farw Medi 2020
**Bundy**, Mr John (Botaneg Amaethyddol, 1950), bu farw Tachwedd 2020*
**Butler**, Mr Keith (Daearyddiaeth a Hanes, 1958), bu farw Ebrill 2021*
**Cobley**, Mrs Tessa, née Jones (Hanes, 1958), bu farw Rhagfyr 2020*
**Corish**, Mrs Sarah, née Hughes (1979), bu farw Tachwedd 2020
**Crookes**, Mr David (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1970), bu farw Hydref 2020
**Davies**, Mrs Mari Lisa, née Jones (Cymraeg/Drama, 1984), bu farw Tachwedd 2020
**Davies**, Yr Arglwyddes Beryl, bu farw Hydref 2020
**Davies**, Dr Aled (Daearyddiaeth, 1951), bu farw Ionawr 2021*
**Davies**, Mr David (Daearyddiaeth / Gwyddoniaeth, 1948), bu farw Tachwedd 2020
**Davies**, Miss Eira (Economeg a Gwyddor Wleidyddol, 1947), bu farw Medi 2020*
**Davies**, Dr Ieuan (Botaneg Amaethyddol, 1947), bu farw Gorffennaf 2019*
**Evans**, Dr Gareth (1963), bu farw Gorffennaf 2021*
**Fisher**, Mrs Judith, née Sherwen (Daearyddiaeth (Celfyddydau) ac Addysg 1969), bu farw Awst 2020*
**Gerrish**, Mrs Eirina, née Lewis (Lladin a Chymraeg, 1957), bu farw Chwefror 2021*
**Gill**, Ms Jennifer (Palaeograffeg a Gweinyddiaeth Archifau, 1973), bu farw Hydref 2020
**Harri**, Ms Nia (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu), bu farw Medi 2020
**Hillman**, Yr Athro John (1958), bu farw Ionawr 2021
**Hopkins**, Mr David (Daearyddiaeth / Celfyddydau, 1956), bu farw Hydref 2020*
**Howard**, Mr Craig (Ffrangeg a Chymraeg, 1994), bu farw Tachwedd 2020*
**Hughes**, Mr Bryan OBE (Daearyddiaeth), bu farw Mawrth 2021
**Hughes**, Mrs Doreen, née Jenkins (Daeareg ac Economeg, 1962), bu farw Tachwedd 2020*
**Ivorian-Jones**, Mrs Cynthia, née Davies (Addysg 1956), bu farw Gorffennaf 2021*
**Jones**, Mrs Ann, née Davies (Hanes Cymru / Cymraeg, 1963), bu farw Rhagfyr 2020*
**Jones**, Miss Hannah (Llenyddiaeth Saesneg / Drama ac Astudiaethau Theatr, 2017), bu farw Rhagfyr 2020
**Jones**, Mrs Wendy (1949), bu farw Medi 2020
**Lim**, Mr Melvin (1985), bu farw Mawrth 2021*
**Ludlow**, Ms Frances (Llyfrgellyddiaeth, 1986), bu farw Gorffennaf 2021
**Morris**, Mr John (Cyfathrebu Gweledol a Drama, 1982), bu farw Hydref 2020
**Morris**, Mr Richard (Saesneg, 1989), bu farw Awst 2020*
**Orrells**, Ms Sian, (Hanes Drama a Chelf ac Astudiaethau Clasurol), bu farw Gorffennaf 2021
**Phillips**, Mrs Siân (Cerddoriaeth, 1971), bu farw Medi 2020
**Pierce**, Mr Gareth (Addysg, 1975), bu farw Gorffennaf 2021
**Pritchard**, Yr Athro Mike (Daeareg), bu farw Awst 2020
**Probert**, Mr David (Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Cudd-wybodaeth, 2010), bu farw Medi 2020
**Roberts**, Y Parchedig Gwilym (Diwinyddiaeth), bu farw 2020
**Slater**, Mrs Elizabeth, bu farw Mawrth 2021
**Smith**, Mr Gordon (Amaethyddiaeth a Sŵoleg, 1952), bu farw Medi 2020*
**Svendsen**, Mr Chris (Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol, 2019), bu farw Mai 2021
**Thomas**, Mr Geoffrey (Y Gyfraith, 1959), bu farw Tachwedd 2020*
**Thornley**, Mr Alan (Daearyddiaeth, 1977), bu farw Hydref 2020
**Tilley**, Mr James (Daearyddiaeth, 1959), bu farw Gorffennaf 2021
**Vlismas**, Mrs Barbra, née Jones, bu farw Hydref 2020*
**Williams**, Mr Philip (Economeg a Busnes, 1975), bu farw Gorffennaf 2020*
**Williams**, Mr Dafydd Prydderch (Cymraeg, 1959), bu farw Gorffennaf 2021*

Os hoffech roi gwybod am farwolaeth un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost at: alumni@aber.ac.uk

# Gwrthrychau Aber yn Gafael
# | Objects of Abership

Mae gan y Brifysgol gynifer â 80 o gasgliadau sy'n rhychwantu pob un o'i hadrannau. Yn eu plith y mae amgueddfa ac orielau achrededig yr Ysgol Gelf, archifau'r Brifysgol, y casgliadau gwyddorau naturiol, llyfrau prin a llawer, llawer mwy. Dyma rai o'r gwrthrychau a'r straeon yr wyf wedi mwynhau ymchwilio iddynt dros y flwyddyn ddiwethaf.

The university houses an astounding 80 collections across all its departments. This includes the accredited museum and galleries of the School of Art, the university archives, the natural science collections, rare books and many more. Here are a few of the objects and stories that I have enjoyed researching during the last year.

@AberUniArchives

archives@aber.ac.uk

Cyn-fyfyrwyr Aber | Aberystwyth Alumni



*Noddwyr Byd y Campau* | *Sporting Sponsors*



*Achubwyd y llifbysgodyn hwn o'r tân yn yr Hen Goleg ym 1885.* | *This sawfish was saved from the Old College fire in 1885.*



*Hen gyfarpar y llaethdy.* | *Antique dairy equipment.*





Model o'r Hen Goleg, porslen, Bafaria, 1890. Rhodd gan Miss Fewings [1930], Amgueddfa ac Orielau Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth

Model of Old College, porcelain, Bavarian, 1890. Gift of Miss Fewings [1930], Aberystwyth University School of Art Museum and Galleries

*Yr Hen Goleg ar ffurf rhodd fechan oddi wrth un o ladmeryddion addysg i ferched.* | *A miniature gift of Old College from a champion of women's education.*



*Ai hwn yw eryr brodorol olaf Ceredigion?* | *Is this the last native eagle of Ceredigion?*



*Gwydr lliw ar Gerbyd ExoMars.* | *Stained glass on the ExoMars Rover.*

[Dyddiad: 24 Mai 2019
Lloeren: Cerbyd ExoMars
Hawlfraint: M. de la Nougerede, UCL/MSSL]

[Date: 24 May 2019
Satellite: ExoMars rover
Copyright: M. de la Nougerede, UCL/MSSL]



Llun: Herbaria@Home.org Credit: Herbaria@Home.org


*Mae ein llysieufa yn llawn sbesimenau o Gors Fochno.* | *Our herbarium is full of specimens from Borth Bog.*






*Enghraifft ysblennydd o fedrau chwythwyr gwydr Coleg Prifysgol Cymru.* | *A stunning example of the skill of the U.C.W glass blowers.*

*A ydych chi'n cofio'r carthenni hyn yn Neuadd Alexandra?* | *Do you remember these carthenni blankets in Alexandra Hall?*



Rhoi i'r Hen Goleg:
aber.ac.uk/apel

Give to the Old College:
aber.ac.uk/appeal

*Rydych chi'n rhan o orffennol Aber ...*

*You are part of Aber's past...*



1976




1964



1960s



1954



1960s



1966



1940s




1960



1980s

...beth am fod yn rhan o'i **dyfodol** hefyd?

...**you** can be part of Aber's future




Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FR FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN
Mae Prifysgol Aberystwyth yn elusen gofrestredig: 1145141
Aberystwyth University is a registered charity no.: 1145141

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Annwyl Gyfeillion,

> *Eich straeon chi sy'n gwneud y Brifysgol hon:*
> *enw da Aber,*
> *awyrgylch Aber,*
> *"ysbryd" Aber.*

Mae adeilad hynaf a mwyaf hanesyddol Aberystwyth – yr Hen Goleg – yn gartref i gynifer o'ch straeon ac i eiliadau a newidiodd eich bywyd. Braint yw clywed yr hanesion; mae'r cynhesrwydd a'r hiwmor yn eich atgofion yn arbennig o deimladwy ac yn aml (yn amlach na pheidio dweud y gwir) yn ddoniol iawn!

Ac ni ellir gwadu bod yr Hen Goleg wedi gweld llawer iawn: troad dwy ganrif; derbyn menywod i addysg uwch; milwyr yn dod gartref o ddau Ryfel Byd; y chwe-degau chwyldroadol; newidiadau cymdeithasol mawr y saith-degau a'r wyth-degau, a ddilynwyd gan ddatblygiadau technolegol radical.

**Mae eich atgofion o'r Hen Goleg yn eistedd ochr yn ochr ag eiliadau hanesyddol tyngedfennol.**

Yn awr, rydym yn creu hanes trwy drawsnewid yr adeilad annwyl hwn trwy gyfrwng ymgyrch codi-arian hanesyddol. **Gyda'ch cymorth chi, fe fydd yn dal i fod yn gefnlen i filoedd yn rhagor o straeon Aber.**

Mae ein cyd gyn-fyfyriwr, Non Vaughan-O'Hagan, yn rhannu pam ei bod eisiau cynorthwyo i ddiogelu'r Hen Goleg i genedlaethau y dyfodol.

Os oeddech yn fyfyriwr yma bum mlynedd neu hanner canrif yn ôl, gobeithio y bydd atgofion Non yn tanio rhai atgofion sy'n annwyl i chi.

**Fe wyddoch fod adeilad yr Hen Goleg yn dirywio a bod angen eich cymorth.**

Mae angen adnewyddu gofalus i gadw ei le amlwg yn Aber, ac yn ein calonnau. I wneud hyn, gallwch gynorthwyo i godi'r £1miliwn olaf i'r Apêl Codi Arian i adfywio'r adeilad unigryw hwn sy'n annwyl yng ngolwg pob un ohonom.

> *A fyddech yn gallu rhoi un rhodd o £50 er mwyn i genedlaethau'r dyfodol fwynhau'r Hen Goleg?*

Gallwch gynorthwyo i gadw'r Hen Goleg – a'i holl hanes - yn fyw.

**Dim ond gyda'ch cefnogaeth chi y gall yr Hen Goleg fod yn rhan o ddyfodol Aber. Man lle caiff eich atgofion eu trysori am flynyddoedd i ddod.**

Os edrychwch nôl ar ddyddiau Aber yn hapus a diolchgar, anfonwch rodd o £50.

Diolch.

**Louise Jagger**

Cyfarwyddwr y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni


*D.S. Rhowch yr hyn a allwch i Apêl yr Hen Goleg. Gallwch gyfrannu gan ddefnyddio'r ffurflen gyfrannu amgaeedig neu ar-lein yn aber.ac.uk/apel*

"

*Heb os nac oni bai, mae'r Hen Goleg yn eicon o Aberystwyth. Yn yr un modd ag y mae Tŵr Eiffel wedi datblygu i fod yn symbol eiconig o ddinas Paris, mae hi'n ddigon posib taw darlun o'r adeilad pert ar ymylon y Prom a ddaw i'r meddwl bob tro y bydd rhywun yn crybwyll Aberystwyth.*

*Rhaid cyfaddef felly taw nid fy mhrofiad fel myfyriwr yn unig sydd wedi fy ysgogi i gefnogi Apêl yr Hen Goleg. Rwy'n frodor balch o Aber – wedi fy ngeni a'm magu yma ac er bod bywyd a gwaith wedi fy nhaflu i ymgartrefu tu hwnt i Glawdd Offa, 'Aber' yw'r ateb bob tro i'r cwestiwn 'O ble ych chi'n dod?'. Wrth feddwl am adre' felly, wy'n meddwl am gerrig euraidd yr Hen Goleg yn tywynnu yn yr haul – oherwydd fel y gŵyr pawb, mae'r haul wastad yn tywynnu yn Aber..! Mae'n fater o falchder felly i mi sicrhau dyfodol disglair i adeilad sy'n eicon o nghartre' i.*

*Ond mae yna reswm arall pam bod cefnogi'r Apêl mor bwysig i mi. Hanner can mlynedd cyn i fi ymuno â'r Brifysgol fel myfyriwr fe wnaeth fy nhad, John Denis Thomas deithio i Aberystwyth o'i gartref ym Mhinged, Sir Gâr i ddechrau ei astudiaethau. Dad oedd y cyntaf o'r teulu a'r unig un ymysg ei frodyr a'i chwaer a gafodd y cyfle i wneud gradd. Anodd peidio meddwl felly am yr aberth gan ei fam yn arbennig i gefnogi'r addysg amhrisiadwy i'r cyw melyn ola' a sicrhau gwell dyfodol iddo ymhell o fuarth y ffarm.*



"Yr Hen Goleg: eicon o Aberystwyth"

*Dyw hanes fy nhad ddim yn unigryw. Yn wir, mae bodolaeth y Brifysgol ynddi'i hun yn destament i'r aberth a wnaed gan deuluoedd ledled Cymru oedd am fuddsoddi yn eu plant, a'u dyfodol tu hwnt i'r glofeydd a'r meysydd diwydiannol. Tybed faint o effaith ar Dad fu ei olwg cynta' o'r Hen Goleg? Mae gen i ffotograff prin ohono yn eistedd yn ffurfiol gydag aelodau eraill ei ddosbarth Cemeg tu allan i fynedfa'r Hen Goleg.*

*Beth yw'r Hen Goleg i finnau felly? Eicon o'r dre yn sicr ond eicon hefyd o'r buddsoddiad mewn gobaith am ddyfodol gwell a wnaed gan gannodd dienw. Heddiw rwy'n credu bod 'da fi'r cyfle i wneud buddsoddiad o'r newydd i sicrhau bod yr Hen Goleg yn mwynhau dyfodol disglair sy'n gweddu i'w orffennol.*

*Non Vaughan-O'Hagan*
*(Y Gyfraith, 1984)*

"

# Dear Friends,

> *Your stories are what make this University:*
> *Aber's reputation,*
> *Aber's atmosphere,*
> *Aber's "spirit".*

Aberystwyth's oldest and most historic building – the Old College – is home to so many of your stories and life-changing moments. It's a privilege to hear your student tales; to hear the warmth and humour in your memories is incredibly touching and sometimes (more often than not) downright funny!

And there's no denying that the Old College has seen a lot: the turn of two centuries; the inclusion of women in higher education; the return of war veterans, from both WWI and WWII; the swinging sixties; the major social changes of the seventies and eighties, followed by radical technological advancements.

**Your memories of the Old College sit alongside such momentous historic moments.**

And now, together we are making history to transform this much-loved building through an historic fundraising campaign. **With your help, it will continue to be the backdrop of thousands more Aber stories.**

Fellow alumnus Stuart Batcup shares some of his student stories and why he wants to help protect the Old College for generations of students to come.

Whether you were a student in Aber five years ago or fifty, I hope Stuart's memories spark some fond memories of your own.

**You know that the Old College is a timeworn building and needs your support.**

It needs sympathetic and careful renovation to retain its prominent place in Aber, and in our hearts. To do this, you can help to fundraise the final £1million towards the Fundraising Appeal to rejuvenate this unique building that we all cherish.

> *Can you please give a gift of £50 so that future students can enjoy the Old College like you did?*

You can help keep the Old College alive – and all its history.

**Only with your support can the Old College be part of Aber's future. A space where your memories will be treasured for years to come.**

If you look back over your Aber years with joy and gratitude, please send a gift of £50.

Thank you.

**Louise Jagger**

Director of the Development, Alumni and Relations Office

*P.S. Please give whatever you can to the Old College Appeal. You can donate by using the donation form enclosed or online at aber.ac.uk/appeal. Thank you.*

"

*I first darkened the doors of the Old College, Aberystwyth on 2nd October 1963. I, and my new acquaintances made at Plynlimon Hall the night before, all turned up in our undergraduate gowns and were ushered into the Quad for the Freshers Fair.*

*When it became known that I had experience of Gang Shows as a Scout, I was quickly press-ganged into acting as compere for the Freshers Show soon to be held in the Old Hall. There I was, dressed in an old College red and green striped Blazer, as a sort of Bruce Forsyth, linking the acts with jokes. Nobody warned me about how packed and raucous it was to be, or about the tomatoes and eggs that would be thrown at me as I struggled in front of the curtain during scene changes. I was terrified, but got through a baptism I have never forgotten. It certainly helped to make me what I became, and visits to that quiet Hall now are full of nostalgia.*

*One of the main highlights of my first year was the famous strike for a Bar in the Students' Union Building (Laura Place). In the centre of temperance that Aberystwyth was in those days, this was a big issue. We were all clad in our gowns, and formed a dignified silent procession from the Old College, along the Prom to the Kicking Bar. It was a fine day and we looked like an army of ants as we made our way around the bay.*

*A Bar was very dear to our hearts, and we got it a year later.*

*I have plenty of memories of my student days — many of which I couldn't possibly share in such a reputable magazine! – but my overarching memory is of the Quad being a bustling hive of activity with swarms of robed students. Although there was no coffee bar, the Quad was the centre of our human interaction, and it buzzed!*


*Memories such as these have kept me bonded to Aber, and the Old College in particular, ever since. A group of us have been holding regular reunions at Aber for the last thirty years and keeping the candle burning for the friendly ghosts of those no longer with us.*

*Visiting the restored Old College, as well as our other old haunts, in the future will keep those memories alive.*

*Call it nostalgia if you will, but that is as good a reason as any for us supporting the Old College at a time in our lives when we can.*

*Stuart "Vic" Batcup (Law, 1966)*

"



"That's me, on the left! Graduation, 1966".